Gyrfa Cymru
Careers Wales

# Dewis Gyrfa Career Choices

## Gyrfa Cymru

### Adroddiad Blynyddol 2024-25

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cynnwys

| | |
|---|---|
| Neges gan y cadeirydd a'r prif weithredwr | 3-4 |
| Ein gweledigaeth, cenhadaeth a gwerthoedd | 5-6 |
| Ein gwasanaethau | 7 |
| Ein model busnes | 8 |
| Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | 9-11 |
| Dyfodol Disglair dangosyddion perfformiad allweddol | 12-14 |
| Cipolwg ar y flwyddyn | 15 |
| Digidol a chyfathrebu | 16-17 |
| Gwasanaethau pobl ifanc | 18-25 |
| Gweithio gyda chyflogwyr ac ysgolion | 26-34 |
| Cymru'n Gweithio | 35-45 |
| Adborth cwsmeriaid ac astudiaethau achos | 41-46 |
| Gwasanaethau corfforaethol | 48-49 |
| Ymrwymiadau eraill | 50-53 |

# Neges gan y cadeirydd a'r prif weithredwr

Braf yw cael cyflwyno Adroddiad Blynyddol 2024–2025 ar gyfer Gyrfa Cymru, sy'n nodi'r bedwaredd flwyddyn o gyflawni yn erbyn ein strategaeth pum mlynedd, *Dyfodol Disglair*. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu sut mae ein gwasanaethau wedi parhau i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i bobl Cymru ac i economi Cymru, yn enwedig yn ystod cyfnod o ansicrwydd economaidd parhaus.



Nid gwasanaeth cymorth yn unig yw cyfarwyddyd gyrfaoedd; mae'n rhan hanfodol o economi ffyniannus a chynhwysol, ac yn gyfraniad hanfodol at lesiant unigolion a'r gymuned. Mae ein gwasanaeth gyrfaoedd diduedd, i rai o bob oed, yn rhoi'r wybodaeth, yr hyder a'r cyfeiriad y mae eu hangen ar bobl i wneud dewisiadau gwybodus a chymryd camau cadarnhaol yn eu blaen. Drwy ddefnyddio gwybodaeth gadarn am y farchnad lafur, rydym yn helpu unigolion i ddeall gofynion sgiliau presennol ac ar gyfer y dyfodol, gan alluogi gwell aliniad rhwng eu huchelgeisiau o ran gyrfa a'r cyfleoedd sy'n codi. Wrth wneud hynny, rydym yn cynnal gweithlu mwy hyblyg ac yn bwydo'r llwybr sgiliau ar gyfer y dyfodol, sy'n hanfodol ar gyfer twf economaidd a gwydnwch.

Rydym yn parhau i fod yn uchelgeisiol yn ein gweledigaeth i gael ein cydnabod fel gwasanaeth gyrfaoedd o'r radd flaenaf, ac rydym yn falch bod Gyrfa Cymru yn cael ei weld fwyfwy fel enghraifft flaenllaw o'r hyn y gall gwasanaeth gyrfaoedd modern, cynhwysol, sydd wedi'i alluogi'n ddigidol fod.

Er gwaethaf amgylchedd allanol heriol, rydym yn falch o ddweud bod Gyrfa Cymru wedi parhau i fod yn hyblyg, yn ymatebol, ac yn canolbwyntio'n gryf ar gyflawni ein blaenoriaethau strategol. Rydym wedi cyflawni canlyniadau cadarn yn erbyn ein dangosyddion perfformiad allweddol ac, mewn llawer o feysydd, rydym wedi rhagori arnynt, gan ddangos gwerth, effaith a'r elw ar fuddsoddiad o'n gwaith.

Ymhlith y datblygiadau mwyaf nodedig eleni, roeddem yn falch iawn o gael cyflwyno ein cynnig gwarantedig newydd o gyfarwyddyd gyrfaoedd i bob unigolyn ifanc cyn iddynt adael addysg. Gyda'r ffigwr trawiadol o 85% yn manteisio ar y fenter, mae'n tynnu sylw at yr angen a'r galw

am gymorth gyrfaoedd arbenigol a diduedd ar adeg hollbwysig ym mywydau pobl ifanc. Lansiwyd Heriau Gwaith mewn Ffocws hefyd, sy'n cysylltu pobl ifanc â byd gwaith mewn ffyrdd arloesol ac ystyrlon. Yn y cyfamser, mae *Gwobr Ansawdd Gyrfa Cymru* (GAGC) wedi parhau i ddatblygu momentwm a diddordeb yn ystod ei chyfnod peilot llwyddiannus, gan danlinellu ein hymrwymiad i godi safon addysg gyrfaoedd ledled Cymru.

I oedolion, cynorthwyodd ein gwasanaeth *Cymru'n Gweithio* dros 32,000 o bobl, gan gynnwys unigolion a oedd yn ddi-waith, yn economaidd anweithgar, yn wynebu diswyddiad, neu'n dod ar draws rhwystrau rhag datblygu. Gwnaethom hefyd barhau i gynorthwyo oedolion cyflogedig yn chwilio am gyngor, arweiniad a chymorth i uwchsgilio, ailhyfforddi neu newid cyfeiriad yn eu gyrfa. Yn ogystal â hyn, cafodd ein gwefan, sy'n gartref i ystod eang o offer, gwybodaeth ac adnoddau gyrfaoedd, bron i hanner miliwn o ddefnyddwyr eleni, gan adlewyrchu'r awydd cynyddol am gymorth hawdd i'ch chyrchu, ar gais.

Hoffem fynegi ein diolch diffuant i aelodau ein bwrdd a'n holl gydweithwyr ar draws y sefydliad. Eu hymroddiad parhaus nhw yw'r grym y tu ôl i'n llwyddiant ni. Eu hymrwymiad nhw sy'n sicrhau y gallwn ni barhau i gyflawni canlyniadau ystyrlon i bobl Cymru, bodloni disgwyliadau Llywodraeth Cymru, a chefnogi ein partneriaid a'n rhanddeiliaid.

Wrth i ni symud ymlaen at y bennod nesaf yn hanes *Dyfodol Disglair*, rydym yn gwneud hynny yn llawn egni, optimistiaeth, a chydag ymdeimlad dwfn o bwrpas. Bydd Gyrfa Cymru yn parhau i hyrwyddo cyfarwyddyd gyrfaoedd hygyrch o ansawdd uchel sy'n cefnogi dyheadau unigolion ac yn cyfrannu at y gwaith o adeiladu Cymru gryfach, wyrddach a thecach i bawb.

**Erica Cassin, Cadeirydd y Bwrdd**
**Nikki Lawrence, Prif Weithredwr**

# Ein gweledigaeth, ein diben a'n gwerthoedd

## Ein gweledigaeth

Creu dyfodol mwy disglair i bobl Cymru.

## Ein diben

Cynorthwyo pobl ifanc ac oedolion yng Nghymru i greu dyfodol mwy disglair. Byddwn yn gwneud hyn trwy gynnig mynediad at gymorth gyrfaoedd diduedd o ansawdd uchel sy'n cael effaith gadarnhaol ar ganlyniadau addysg, ar yr economi ac ar lesiant unigolion.

## Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi anghenion y cwsmer wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn cydweithio ag eraill i gyflawni nodau a rennir. Rydym yn ddyfeisgar, wedi'n galluogi gan dechnoleg, ac yn cael ein harwain gan fewnwelediad.

## Yn gwneud gwahaniaeth:

- **Ar gyfer pobl ifanc:** gwell dealltwriaeth o fyd gwaith a'r sgiliau y mae eu hangen i lwyddo, a mwy o ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt, wedi'u hategu gan fynediad at gyfarwyddyd ac anogaeth gyrfa sy'n ddiduedd.

- **Ar gyfer oedolion:** mynediad at gyfarwyddyd ac anogaeth gyrfa sy'n broffesiynol a diduedd i'w helpu i oresgyn rhwystrau a symud ymlaen i waith a hyfforddiant teg a gweddus.

- **Ar gyfer busnesau:** trwy ein gwaith gydag ysgolion, colegau a chymunedau, bydd gan gyflogwyr gysylltiadau agosach â'u gweithlu yn y dyfodol. Rydym yn cynorthwyo busnesau a gweithwyr pan fydd swyddi yn y fantol, gan gefnogi ailsgilio ac uwchsgilio.

- **Ar gyfer ysgolion, colegau, darparwyr hyfforddiant a phrifysgolion:** dysgwyr brwdfrydig, ysbrydoledig gyda chynlluniau clir ar gyfer eu gyrfaoedd, gan gefnogi cyrhaeddiad a chynnydd gwell.

- **Ar gyfer rhieni, gwarcheidwaid a gofalwyr:** ymgysylltu â'r bobl ddylanwadol hyn a sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r opsiynau sydd ar gael a'u bod wedi'u paratoi'n addas i gynnig cymorth.

- **Ar gyfer Llywodraeth Cymru:** mae cyfarwyddyd ac anogaeth gyrfa yn cynnal gweithrediad llwyddiannus y farchnad lafur, gan wella canlyniadau economaidd, cefnogi a hwyluso symudedd cymdeithasol, a gwella llesiant pobl ifanc ac oedolion.

Rydym yn gweithio'n agos gyda sefydliadau addysgol, cyflogwyr, partneriaid, a sefydliadau cymunedol i helpu pobl ifanc ac oedolion i gynyddu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o gyfleoedd, anghenion sgiliau, a'r farchnad lafur leol.

Mae ein gwasanaethau digidol yn darparu mynediad cenedlaethol at wybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd, gyda chymorth personol yn cael ei gynnig ar ffurf gwe-sgwrs fyw, dros y ffôn a thros fideo.



# Ein gwasanaethau

## Gwasanaethau mewn addysg

**Blynyddoedd 8 i 9**
Ehangu gorwelion a chodi dyheadau drwy archwilio opsiynau ar gyfer penderfyniadau gwybodus

**Addysg heblaw yn yr ysgol**
Helpu i gynnal ymgysylltiad ag addysg, cyflogaeth a hyfforddiant

**Rhieni a gwarcheidwaid**
Ymgysylltu â rhieni, darparu gwybodaeth a chyngor i gynorthwyo plant i wneud penderfyniadau pwysig

**Cymorth cwricwlwm**
Cynorthwyo ysgolion a cholegau i ddatblygu eu darpariaeth gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith

**Blynyddoedd 10 i 13 ac addysg bellach**
Cymorth ar gyfer pontio llwyddiannus o addysg i hyfforddiant, dysgu pellach neu gyflogaeth

**Anghenion dysgu ychwanegol**
Gweithio gyda phartneriaid i gytuno ar gynlluniau dysgu a sgiliau ar gyfer cyfnodau pontio cadarnhaol, a chefnogi'r cynlluniau hyn

**Cysylltiadau busnes ac addysg**
Hwyluso cysylltiadau cyflogwyr ag ysgolion i gyfoethogi dealltwriaeth o 'fyd gwaith'

## Gwasanaethau yn y farchnad lafur

**Troseddwyr ifanc a throseddwyr sy'n oedolion**
Cefnogi pobl ifanc ac oedolion yn ystod eu dedfryd a'u rhaglenni ailsefydlu

**Di-waith 18+**
Cymorth i nodi a goresgyn rhwystrau i gyflogaeth. Cyngor a chyfarwyddyd diduedd ac atgyfeiriad at gymorth pellach neu raglenni addas. Cymorth i ddod o hyd i waith

**Diswyddiad**
Cymorth i gael mynediad at gyllid ReAct+ ar gyfer diweddaru sgiliau neu ailhyfforddi, a chymorth cyflogadwyedd

**Yn gyflogedig neu dan hyfforddiant**
Cynorthwyo adolygiadau gyrfa drwy ddarparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad, a thrwy wneud atgyfeiriadau i gymorth drwy gyfrifon dysgu personol a Chronfeydd Dysgu Undebau Cymru (WULF)

**Di-waith 16 i 18**
Cynorthwyo pobl ifanc i bontio'n llwyddiannus i addysg, gwaith, hyfforddiant neu gymorth cyflogadwyedd. Atgyfeiriadau i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant, gan gynnwys rhaglen TSC+


# Ein model busnes

Mae Gyrfa Cymru yn is-gwmni sy'n eiddo llwyr i Lywodraeth Cymru, ac fe'i lansiwyd ar 1 Ebrill 2013.

Mae'r cwmni'n darparu gwasanaethau gwybodaeth, anogaeth a chyfarwyddyd gyrfaoedd diduedd i bobl o bob oed yng Nghymru o fewn cylch gwaith a bennwyd gan Lywodraeth Cymru.

Mae ein bwrdd yn cynnwys cadeirydd a hyd at 12 o gyfarwyddwyr eraill a benodir gan Lywodraeth Cymru. Mae'r bwrdd yn gofalu am lywodraethu'r cwmni ac yn cyfrannu at y strategaeth wrth symud ymlaen.

Mae lles economaidd a chymdeithasol Cymru wrth wraidd ein gwasanaethau, ac mae'r sefydliad wedi ymrwymo'n llwyr i egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.



# Llesiant cenedlaethau'r dyfodol

Wedi'n hysgogi gan ein gwerthoedd a'n hegwyddorion, a thrwy gydweithio ag eraill, byddwn yn helpu i gyflawni nodau llesiant y genedl.

Caiff y pum ffordd o weithio y mae eu hangen ar gyrff cyhoeddus i gyflawni'r saith nod llesiant eu hadlewyrchu yn y ffordd yr ydym yn cynllunio a darparu ein gwasanaethau. Mae'r astudiaeth achos ganlynol yn helpu i ddangos sut y caiff hyn ei roi ar waith yn ein gwaith ni.

## ASTUDIAETH ACHOS

### Golwg ar lesiant cenedlaethau'r dyfodol

Bwydydd Castell Howell ac Ysgol Gyfun Gymraeg Maes y Gwendraeth

**Mae Bwydydd Castell Howell yn un o brif ddarparwyr gwasanaethau bwyd y Deyrnas Unedig. Maent wedi ein cefnogi ni ac ysgolion ers dros ddegawd, gan roi llawer o gyfleoedd i ddysgwyr ddod i wybod am fyd gwaith.**

**Parhaodd y bartneriaeth rhwng Bwydydd Castell Howell ac Ysgol Gyfun Gymraeg Maes y Gwendraeth i fod yn hynod gynhyrchiol yn 2024–2025. Mae'r bartneriaeth hon wedi hwyluso gweithgareddau gyrfaoedd deniadol ac wedi cryfhau'r berthynas rhwng yr ysgol a'r gymuned fusnes.**



# Mae'r uchafbwyntiau'n cynnwys y digwyddiadau canlynol:

## Cystadleuaeth arlunio ar gyfer lori

Cystadleuaeth ar gyfer myfyrwyr celf TGAU yr ysgol oedd hon yn wreiddiol i ddarparu dyluniadau ar gyfer ochrau un o loriau newydd Bwydydd Castell Howell. Bu'r gystadleuaeth yn un mor ysbrydoledig a phoblogaidd nes iddi gael ei hagor i bob dysgwr. Bydd y dyluniad buddugol yn cael ei arddangos ar un o'u loriau am 18 mis. Tynnodd y gystadleuaeth sylw at rôl celf a dylunio ym myd gwaith gan roi'r cyfle i fyfyrwyr gymhwyso eu sgiliau yn y byd go iawn.

## Her Gwaith mewn Ffocws

Datblygwyd yr Her Gwaith mewn Ffocws ar gyfer ei chyflwyno i garfan blwyddyn 8 yr ysgol ym mis Gorffennaf 2025 dros gyfnod o ddau ddiwrnod. Rhoddwyd her i'r dysgwyr i ddatblygu smwddi iach a maethlon. Darparodd yr her gefnogaeth drawsgwricwlaidd i'r ysgol, gan gefnogi'r meysydd pwnc Bwyd a Maeth, Mathemateg, Gwyddoniaeth a Dylunio a Thechnoleg. Bu busnesau eraill o'r sector bwyd yn cynnal gweithdai a ehangodd ddealltwriaeth y myfyrwyr o'r llwybrau gyrfa amrywiol sydd ar gael.

## Llywodraethu

O ganlyniad i'r bartneriaeth, mae Bwydydd Castell Howell wedi dod yn rhan fawr o'r ffordd y caiff yr ysgol ei llywodraethu. Cyfarwyddwr ariannol y cwmni hefyd yw cadeirydd y llywodraethwyr yn Ysgol Gyfun Gymraeg Maes y Gwendraeth, ac y mae wedi chwarae rhan hanfodol wrth feithrin y berthynas hon. Mae'r cyfraniad hwn wedi sicrhau bod y bartneriaeth yn gydnaws â nodau strategol yr ysgol ac wedi darparu mewnwelediadau gwerthfawr gan y gymuned fusnes.

## Ymweliad â'r safle

Croesawodd Bwydydd Castell Howell garfan blwyddyn 7 yr ysgol i'w warws a'u pencadlys yn Crosshands. Bu'r disgyblion yn dysgu am y gwahanol gyfleoedd gyrfa sydd ar gael yn y sector bwyd a diod.

## Gweithdy cigyddiaeth

Cynhaliodd un o gigyddion Bwydydd Castell Howell weithdy i fyfyrwyr blwyddyn 10 yr ysgol a oedd yn astudio TGAU Bwyd a Maeth. Bu'r myfyrwyr yn dysgu sut i dorri a pharatoi cig yn gywir ar gyfer eu harholiadau TGAU, a fu'n ffordd o'u paratoi pe byddent yn penderfynu dilyn y llwybr gyrfa hwn yn y dyfodol.

## Her Gyrfaoedd Blasus

Bu Bwydydd Castell Howell yn cefnogi tîm yr ysgol a'i fentora ar gyfer yr Her Gyrfaoedd Blasus flynyddol, gan ei gynorthwyo i gyrraedd y rownd derfynol ym Mharc y Scarlets. Roedd yr her hon yn cynnwys 14 o ysgolion, a mwy na 900 o fyfyrwyr. Y dasg oedd bod y dysgwyr yn gwneud prydau iach gan ddefnyddio cynhyrchion lleol.

Nod y gystadleuaeth yw tynnu sylw at gyfleoedd yn y diwydiant bwyd, yn ogystal â helpu dysgwyr i ddatblygu sgiliau pwysig. Bwydydd Castell Howell a wnaeth noddi'r rownd derfynol, a bu'r cwmni yn cydweithio â busnesau lleol i ddarparu'r gwobrau. Roeddent wedi gwirioni cymaint â'r cynnyrch buddugol, nes iddynt ei ychwanegu at eu harlwy eu hunain.

**Yng Ngwobrau Partneriaid Gwerthfawr 2025, cyflwynwyd y Wobr Cyflawniad Eithriadol Dengmlwyddiant i Bwydydd Castell Howell er mwyn cydnabod ymrwymiad eithriadol y cwmni i gefnogi pobl ifanc yn eu cymuned.**

## Cyswllt â nodau llesiant cenedlaethau'r dyfodol

**Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu**

Cymraeg yw iaith swyddogol yr ysgol. Mae Bwydydd Castell Howell yn cynnal hyn drwy ddarparu eu cefnogaeth trwy gyfrwng y Gymraeg, gan sicrhau bod gwerth sgiliau iaith Gymraeg yn y gweithle yn cael ei bwysleisio.

**Cymru sy'n fwy cyfartal**

Drwy ddod ag ysgolion a chyflogwyr at ei gilydd, mae'r fenter Partneriaid Gwerthfawr Ysgolion wedi'i chynllunio i helpu pobl ifanc i gyflawni eu potensial, waeth beth fo'u cefndir.

**Cymru lewyrchus**

mae cyswllt rhwng pobl ifanc a chyflogwyr yn hanfodol er mwyn rhoi'r sgiliau iddynt allu meddwl am eu dewisiadau gyrfa ar gyfer y dyfodol.

**Cymru o gymunedau cydlynus**

fel cwmni a sefydlwyd yng ngorllewin Cymru, mae Bwydydd Castell Howell yn cefnogi pobl ifanc Ysgol Gyfun Gymraeg Maes y Gwendraeth, sy'n ysgol leol, i elwa o well dealltwriaeth o fyd gwaith.

**Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang**

Mae Bwydydd Castell Howell yn cydnabod yr effaith ddofn y mae eu diwydiant yn ei chael ar y blaned, ac y maent wedi ymrwymo i fod yn gatalydd ar gyfer newid cadarnhaol, a chwarae eu rhan yn y gwaith o lunio dyfodol cynaliadwy. Caiff y negeseuon hyn eu pwysleisio trwy eu gwaith gydag Ysgol Gyfun Gymraeg Maes y Gwendraeth.

**Cymru iachach**

mae gweithgareddau gyrfaoedd a gefnogir gan y bartneriaeth yn helpu i wneud pobl ifanc yn fwy hyderus a brwdfrydig ynghylch eu gyrfa yn y dyfodol, gan gyfrannu at well llesiant meddwl yn y pen draw.

**Cymru gydnerth**

mae'r gweithgareddau gyrfaoedd yn cyfrannu at y gwaith o sicrhau bod cenedlaethau'r dyfodol yn ymwybodol o'r cyfleoedd a fydd ar gael yn economi Cymru yn y dyfodol.

Yn ddiweddarach yn yr adroddiad rydym yn tynnu sylw at astudiaethau achos sy'n dangos ymhellach sut rydym yn cyfrannu at nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

## Canlyniadau strategol a dangosyddion perfformiad allweddol

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r canlyniadau strategol a nodir yn Dyfodol Disglair, a'r dangosyddion perfformiad allweddol a nodir yn eu herbyn ar gyfer 2024–2025.

| | Canlyniad strategol | Dangosydd perfformiad allweddol | Perfformiad yn erbyn y dangosydd perfformiad allweddol |
|---|---|---|---|
| **1** | Cefnogi pobl ifanc ac oedolion i bontio'n gadarnhaol i addysg, gwaith neu hyfforddiant, gan gynnwys prentisiaethau, a deall y sgiliau y mae eu hangen i lwyddo yn y farchnad lafur a chyfrannu at economi Cymru yn y dyfodol. | Mae **95%** oo'r disgyblion sy'n cael gwasanaeth cyfarwyddyd ac anogaeth yn mynd ymlaen i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant ar ôl gadael yr ysgol. | Aeth **95.9%** o'r bobl ifanc a gafodd wasanaeth cyfarwyddyd ac anogaeth, ac a adawodd flwyddyn 11 yn 2024, ymlaen i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant ar ôl gadael yr ysgol. |
| **2** | Cwsmeriaid sydd wedi elwa ar lefelau uwch o gymorth i bontio'n gadarnhaol i ddarpariaeth briodol. | Mae **85%** o'r bobl ifanc sy'n cael cymorth wedi'i dargedu yn mynd ymlaen i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant ar ôl gadael yr ysgol. | Aeth **92.8%** o'r bobl ifanc a gafodd wasanaeth cymorth wedi'i dargedu, ac a adawodd flwyddyn 11 yn 2024, ymlaen i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant ar ôl gadael yr ysgol. |
| **3** | Codi ymwybyddiaeth cwsmeriaid o addysg, cyflogaeth a hyfforddiant, a chyfleoedd dilyniant eraill. | Dywedodd **90%** o'r bobl ifanc mewn addysg eu bod yn fwy ymwybodol o gyfleoedd. | Dywedodd **96.3%** o bobl ifanc eu bod yn fwy ymwybodol o gyfleoedd (4,625 o ymatebion cadarnhaol o 4,805). |
| **4** | Gwella mynediad at fanteision cymorth ar ffurf cyfarwyddyd ac anogaeth gyrfaoedd drwy gydweithredu ac ymgysylltu â phartneriaid a dylanwadwyr. | Cytundebau partneriaeth gyda **100%** o sefydliadau partner sy'n galluogi gwell mynediad er budd gwasanaethau cyfarwyddyd ac anogaeth gyrfaoedd. | Llofnododd **100%** o sefydliadau Gytundeb Partneriaeth (243 o sefydliadau allan o 243). |

| | Canlyniad strategol | Dangosydd perfformiad allweddol | Perfformiad yn erbyn y dangosydd perfformiad allweddol |
|---|---|---|---|
| **5** | Hysbysu ac ysgogi pobl ifanc ynglŷn â'r byd gwaith drwy ymgysylltu â chyflogwyr a modelau rôl. | Mae Gyrfa Cymru yn hwyluso o leiaf un digwyddiad ymgysylltu â chyflogwyr mewn **95%** o ysgolion uwchradd yng Nghymru. | Cafodd **99.5%** o ysgolion o leiaf un digwyddiad ymgysylltu â chyflogwyr (208 o ysgolion uwchradd prif ffrwd allan o 209). |
| **6** | Codi ymwybyddiaeth pobl ifanc o'r sgiliau y mae eu hangen ar sectorau sy'n flaenoriaeth economaidd, a sut y maent yn cysylltu â'r cwricwlwm. | Wedi'i ddileu gan nad yw digwyddiadau Dewiswch Eich Dyfodol bellach yn y cynllun gweithredol.* | |
| **7** | Gwella gallu ysgolion ac arweinwyr gyrfaoedd i ddarparu addysg gyrfaoedd a phrofiadau cysylltiedig â byd gwaith o fewn y Cwricwlwm i Gymru. | Darperir hyfforddiant neu gymorth ymgynghorol i wella rhaglenni gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith i athrawon mewn **70%** o'r ysgolion uwchradd yng Nghymru. | Mae athrawon o **61.7%** o'r ysgolion prif ffrwd wedi cymryd rhan mewn hyfforddiant neu gymorth ymgynghorol i wella rhaglenni gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith (129 o ysgolion allan o 209). |
| **8** | Darparu gwasanaethau wedi'u teilwra sy'n canolbwyntio ar y cwsmer ac sydd wedi'u gwella gan dechnoleg, sy'n ymatebol i anghenion defnyddwyr ac yn hygyrch i bawb. | Dywedodd **85%** o gwsmeriaid y diwallwyd eu hanghenion gan wasanaeth ar-lein. | Mae **87.2%** o gwsmeriaid yn dweud bod ein gwasanaeth Cysylltu wedi diwallu eu hanghenion (1,046 o ymatebion cadarnhaol o 1,200). |

* Mae'r newidiadau hyn wedi golygu nad oeddem yn gallu mesur yr hyn a oedd gynt yn Ddangosydd Perfformiad Allweddol 6 yn 2024-25 oherwydd y ffaith, yn ystod tair blynedd gyntaf Dyfodol Disglair, bod hyn wedi'i fesur gan arolygon cwsmeriaid mewn digwyddiadau effaith uchel. Er mwyn parhau i godi ymwybyddiaeth pobl ifanc o'r sgiliau sydd eu hangen ar sectorau blaenoriaeth economaidd, fe wnaethom ddatblygu cyfres o heriau sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm i'w cyflwyno mewn ysgolion unigol. Mae mwy o fanylion am yr heriau cwricwlwm hyn wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn.

| | Canlyniad strategol | Dangosydd perfformiad allweddol | Perfformiad yn erbyn y dangosydd perfformiad allweddol |
|---|---|---|---|
| **9** | Creu gweithlu Gyrfa Cymru medrus, ymgysylltiedig, amrywiol a hyblyg iawn. | Mae **100%** oo gynghorwyr gyrfa dan hyfforddiant yn cwblhau eu diploma lefel 6 mewn Cyfarwyddyd a Datblygu Gyrfaoedd yn llwyddiannus o fewn y ddwy flynedd a neilltuwyd.<br><br>Mae **75%** o weithwyr yn adrodd lefelau ymgysylltu cadarnhaol â'r cwmni. | O'r cynghorwyr hynny sydd wedi cymhwyso eleni, gwnaeth **100%** oohonynt hynny o fewn y cyfnod o ddwy flynedd (naw allan o naw).<br><br>Yn 2023–2024, gwnaeth **77.1%** o weithwyr nodi lefelau cadarnhaol o ymgysylltu â'r cwmni. [1] |
| **10** | Gwneud y defnydd gorau o dechnoleg i drawsnewid ein ffyrdd o weithio, a datblygu sgiliau a galluoedd digidol holl weithwyr Gyrfa Cymru. | Gwelliant yn sgiliau a galluoedd digidol gweithwyr Gyrfa Cymru. | Aseswyd bod **90%**[2] o'r gweithwyr yn meddu ar y lefel ofynnol o sgiliau a galluoedd digidol i wneud y defnydd gorau o dechnoleg. |
| **11** | Seilio ein datblygiadau o ran strategaeth, polisi a gwasanaeth ar ein dealltwriaeth o gwsmeriaid, gwybodaeth fusnes, data a dadansoddeg. | Dim dangosydd perfformiad allweddol, ond caiff cynnydd ei fonitro trwy ein fframwaith gwelliant parhaus. | Dim dangosydd perfformiad allweddol, ond caiff cynnydd ei fonitro trwy ein fframwaith gwelliant parhaus. |

[1] Arolwg ddwywaith y flwyddyn yw hwn, a gwblhawyd yn fwyaf diweddar yn 2023–2024.
[2] Yn 2022–2023, sefydlwyd mesur sylfaenol yn pennu bod 10% o weithwyr yn y ddau chwartel isaf o angen i wella eu sgiliau digidol. Mae rhaglen uwchsgilio digidol wedi dechrau, ac mae cyfleoedd dysgu byr ar gael i bob gweithiwr.

# Cipolwg ar y flwyddyn

## 2024–2025

Roedd gan wefan Gyrfa Cymru dros **420,000** o ddefnyddwyr, gyda **145,000** o ddefnyddwyr yn cyrchu'r rhan o'r wefan sy'n cynnwys gwybodaeth am swyddi.

Cynhaliwyd dros **80,000** o gyfweliadau gan gynghorwyr gyrfa dros y ffôn, mewn galwad fideo ac wyneb yn wyneb â phobl ifanc mewn addysg.

Aeth mwy na **38,000** o bobl ifanc mewn addysg i un neu ragor o sesiynau cynllunio gyrfa rhyngweithiol mewn grŵp.

Hwyluswyd dros **1,700** o weithgareddau ar wahân dan arweiniad cyflogwyr mewn ysgolion uwchradd, gan gynnwys cyfweliadau ffug, cyflwyniadau, ymweliadau safle a diwrnodau carwsél, i gyd wedi'u mapio i brofiadau addysg gyrfaoedd a phrofiadau cysylltiedig â gyd gwaith yn y Cwricwlwm i Gymru.

Cynorthwyodd gwasanaeth Cymru'n Gweithio dros **32,500** o oedolion, yn ogystal â chynnig cymorth i dros **5,000** o bobl ifanc.

Cynorthwywyd dros **50,000** o gysylltiadau cwsmeriaid trwy ein gwasanaeth Cysylltu amlsianel. Cysylltu yw'r gwasanaeth pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer ein cwsmeriaid.

Gyrfa Cymru
Careers Wales

# Digidol a chyfathrebu

Cafodd gwefan Gyrfa Cymru dros **420,000** o ddefnyddwyr, a oedd yn gynnydd o dros 5% ers 2023–2024, gydag ychydig dros **4.25 million** o ymweliadau â'r dudalen. Amlygodd gwerthusiad ansoddol o'r wefan gyfan fod **97%** wedi dweud ei bod wedi eu helpu i ddeall pa opsiynau dysgu a gyrfa a oedd ar gael iddynt*.

Defnyddiodd dros **46,000** o gwsmeriaid y cwis paru gyrfa i baru swyddi â'u sgiliau a'u diddordebau, sef cynnydd o dros 10% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Gwerthuswyd y cwis yn ystod y flwyddyn hefyd, a dywedodd **92%** o ddefnyddwyr ei fod wedi eu helpu i gael mwy o gymhelliant i gael rhagor o wybodaeth am swyddi*.

Wedi i ni ychwanegu darpariaeth ar gyfer addysg bellach amser llawn at ein cyfleuster Chwilio am Gyrsiau yn 2023–2024, rydym wedi gweld cynnydd o a **31%** yn nifer y defnyddwyr eleni (dros **30,000** o ddefnyddwyr i gyd).

Cyhoeddwyd ein nodwedd proffil ar y wefan yn 2022, ac yn 2023 ychwanegwyd y gallu i gadw gwybodaeth am swyddi i broffiliau defnyddwyr. Ym mis Mawrth 2025, roedd dros **15,000** o gwsmeriaid yn defnyddio eu proffil i gadw dros **150,000** o deitlau swyddi, gan eu helpu i bersonoli, olrhain a chynllunio eu taith gyrfa.

Cyhoeddwyd ardal newydd o fewn ein hadnodd Minecraft CrefftGyrfaoedd arobryn, mewn partneriaeth â Croeso Cymru a Chanolfan Wyliau Bluestone. Bu 30 o bobl ifanc o Ysgol Gynradd Gymunedol Tredeml yn dathlu'r lansiad gyda ni yn Bluestone. Mae bron i **65,000** o bobl wedi sgorio CrefftGyrfaoedd ar Microsoft Marketplace. Erbyn hyn, mae ganddo **sgôr o 4.2 allan o 5** ac y mae wedi cael ei lawrlwytho dros **7.8 million** o weithiau.

Roedd ein cyfrifon cyfryngau cymdeithasol, gan gynnwys X, Facebook, YouTube, Instagram, a LinkedIn, wedi denu cyfanswm o dros 79,000 o ddilynwyr erbyn diwedd y flwyddyn, sy'n gynnydd o **3.7%** ers 2023–2024. Cyflawnodd y cyfrifon gyfanswm o dros **150,000** o ymgysylltiadau, sef cynnydd o **52%**.

Cawsom ein crybwyll **930** o weithiau yn y cyfryngau ar draws 182 o allfeydd unigol, sydd cystal â ffigurau'r blynyddoedd blaenorol; ac eleni, cynyddodd y nifer o straeon go iawn a gyhoeddwyd gennym i gyfanswm o **47**.



Er mwyn sicrhau ein bod yn diwallu anghenion defnyddwyr ac yn gwella ein gwasanaethau'n barhaus, rydym yn cynnal ymchwil defnyddwyr a gwerthusiadau sy'n llywio cyfeiriad yn y dyfodol. Un enghraifft o hyn yn 2024–2025 oedd cynnal arolwg o dros 200 o gydweithwyr gyrfaoedd ynghylch ein cynnig gwybodaeth am y farchnad lafur fel y gallwn wneud gwelliannau i'n cynhyrchion, ein hadnoddau a'n gwybodaeth o ran y farchnad lafur ar gyfer ein cwsmeriaid a'n cynghorwyr.

Noder, troswyd o Google Analytics i fetrigau GA4 yn ystod 2023–2024, felly nid yw pob ffigur yn gymhariaeth tebyg am debyg. * Maint y sampl ar gyfer gwerthuso'r wefan oedd 121, a 110 ar gyfer y cwis paru gyrfa.

- Sicrhawyd bod yr holl wybodaeth a chymorth sydd ar gael trwy wasanaethau digidol yn hygyrch, yn ddwyieithog ac yn hawdd eu defnyddio.

- Archwiliwyd ein strategaeth ddigidol, a rhoddwyd 'sicrwydd sylweddol' iddi ar gyfer meysydd allweddol megis llywodraethu, risg, cyllideb, adrodd, targedau a gweithredu.

- Ychwanegwyd llawer o gynnwys newydd a oedd wedi'i adnewyddu i'r wefan, gan gynnwys yr adran 'Sut i ddod o hyd i swyddi sydd heb eu hysbysebu' a thudalen yn egluro'r heriau Gwaith mewn Ffocws newydd. Mae ein gwefan yn parhau i fod mewn sefyllfa gref gyda'n hasesiadau hygyrchedd parhaus. Gwnaethom ryddhau cynhyrchion newydd ar y wefan, gan gynnwys system archebu apwyntiadau hunanwasanaeth, ac ychwanegu wyth sector arall at adran Swyddi Dyfodol Cymru, gan roi cyfanswm o 12 diwydiant byw inni. Bydd y pedwar sector sy'n weddill yn cael eu cyhoeddi ar ddechrau cyfnod 2025–2026. Cafodd sawl cynnyrch presennol ei wella hefyd, gan gynnwys Chwilio am Gwrs a'n cronfa ddata Cyfnewidfa Addysg Busnes.

- Rydym yn datblygu pedwar prosiect deallusrwydd artiffisial sydd wedi'u cynllunio i wella taith cwsmeriaid a gweithwyr. Mae tri ohonynt yn rhai mewnol a byddant yn cefnogi cynghorydd gyrfa i gynnal cyfweliadau cyfarwyddyd a chymorth gyrfaoedd yn effeithlon. Mae'r prosiect terfynol wedi'i anelu at ddysgwyr ôl-16 lle'r ydym yn datblygu sgwrsfot brysbennu i'w helpu i nodi pa gymorth y mae ei angen arnynt.

- Lansiwyd canllawiau brand newydd a fydd yn ein helpu i sicrhau bod ein gwasanaethau'n glir ac yn adnabyddadwy i'n cynulleidfaoedd. Yn ystod y flwyddyn, aethom ati hefyd i lansio cylchlythyrau newydd i rieni disgyblion prif ffrwd a rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) i'w helpu i gefnogi eu plentyn ar bwyntiau trosglwyddo allweddol.

- O ganlyniad i adborth, rydym wedi bod yn brysur yn datblygu cynnwys fideo 360° i baratoi'n cwsmeriaid niwroamrywiol cyn ymweld â'n canolfannau. Rydym hefyd wedi parhau i ehangu ein cynnwys fideo yn yr adran Fy Nyfodol ar y wefan.

- Drwy gymryd rhan yn ein gweithgareddau ymchwil defnyddwyr, mae cwsmeriaid wedi ein helpu i wella, deall canfyddiadau a llunio gwasanaethau allweddol yn barhaus. Mae'r prosiectau'n cynnwys y system trefnu apwyntiadau, ein cynnig ôl-16, a'n cefnogaeth i bobl ifanc sy'n cael eu haddysgu gartref.

# Gwasanaethau i bobl ifanc

- Cyflwynwyd **282** o sesiynau grŵp i **14,809** o bobl ifanc yng Nghyfnod Allweddol 3. Bu'r sesiynau hyn yn ymdrin ag amrywiaeth o bynciau, a nod pob un oedd ehangu gorwelion a gwneud pobl ifanc yn ymwybodol o fyd gwaith. Yn ogystal, cynhaliwyd **1,464** o gyfweliadau gennym i gynorthwyo pobl ifanc unigol ymhellach i wneud penderfyniadau gwybodus.

- Cynhaliwyd **59,770** o gyfweliadau un-i-un i **37,514** o bobl ifanc yng Nghyfnod Allweddol 4 i drafod eu syniadau gyrfa, a gwnaeth dros **26,000** ymgymryd â sesiynau grŵp rhyngweithiol. Bu'r sesiynau hyn yn fodd o ddatblygu sgiliau rheoli gyrfa'r dysgwyr, gan ymdrin â phynciau megis ymwybyddiaeth o gyfleoedd, gwybodaeth am y farchnad lafur a gwneud penderfyniadau.

- Mae'r cymorth a ddarperir i fyfyrwyr y chweched dosbarth yn canolbwyntio ar bontio ôl-18 a datblygu dealltwriaeth o'u hopsiynau ar gyfer y dyfodol. Cafodd **4,812** o bobl ifanc y cymorth hwn gennym ni ar ffurf cyfarfodydd un-i-un, a gwnaeth dros **3,500** o bobl ifanc ymgymryd ag un o'n sesiynau grŵp.

- Mae myfyrwyr sy'n mynychu colegau addysg bellach yn cael cymorth dilynol, gan gynnwys cyfarwyddyd a chyfweliadau hyfforddi, gyda blaenoriaeth yn cael ei rhoi i'r bobl ifanc hynny sydd mewn perygl o roi'r gorau i'w cwrs. Eleni, lansiwyd gwasanaeth digidol newydd sbon gennym ar gyfer dysgwyr addysg bellach, a all fanteisio ar ein system archebu ar-lein newydd ac archebu eu cyfarwyddyd eu hunain ar amser sy'n addas iddyn nhw, gan ei gwneud yn haws i gyd-fynd ag amserlen eu cwrs. Cynhaliwyd **3,705** o gyfweliadau gennym gyda phobl ifanc yn y lleoliad hwn.

- Mae ein cynghorwyr gyrfa yn gweithio gyda phobl ifanc ag ADY i gynnal proses bontio lwyddiannus, wedi'i chynllunio, o'r ysgol. Darparwyd **10,832** o ryngweithiadau un-i-un i bobl ifanc sydd â datganiad, yr hyn sy'n gyfwerth â datganiad neu gynllun datblygu unigol. Fel rhan o'n cymorth ADY, aethom i **3,565** o adolygiadau pontio gyda'r ysgolion, darparwyr, rhieni a phobl ifanc i sicrhau proses bontio esmwyth.

- Yn ogystal â chefnogi myfyrwyr, mae hefyd yn bwysig i'n timau ymgysylltu â rhieni a gofalwyr a'u cynnwys nhw. Cofnodwyd **18,469** o gysylltiadau gennym â rhieni a gofalwyr, ac aeth cynghorwyr gyrfa i **574** o ddigwyddiadau rhieni.


- Rydym hefyd yn chwarae rhan hanfodol wrth eirioli ar ran pobl ifanc i sicrhau darpariaethau priodol. Yn ystod y flwyddyn, cyflwynwyd **89,735** o sesiynau eiriolaeth gennym ar ran **33,700** o gwsmeriaid i gynorthwyo proses bontio lwyddiannus ar gyfer pobl ifanc.

- Yn ystod eu hamser yng Nghyfnod Allweddol 4, cafodd , **25,181**[3] o'r garfan a oedd yn ymadael â'r ysgol yn 2024 gyfweliad gyda chynghorydd gyrfa, a ddarparwyd trwy gyfrwng fideo, dros y ffôn neu wyneb yn wyneb. Roedd hyn yn cynrychioli **75%** o'r garfan. Ym mis Medi 2024, cyflwynwyd cynnig newydd mewn ysgolion lle cynigir cyfweliad cyfarwyddyd i bob disgybl cyn iddynt gwblhau addysg orfodol. Ein nod yw cyrraedd o leiaf 80% o'r garfan. Byddwn yn adrodd ar y cynnig newydd hwn ar gyfer y garfan sy'n ymadael â'r ysgol yn 2025 yn ein hadroddiad blynyddol ar gyfer 2025–2026.

Mae ein gwaith mewn ysgolion a cholegau yn cynorthwyo pobl ifanc i ddod yn fwy effeithiol wrth gynllunio a rheoli eu gyrfaoedd mewn marchnad swyddi sy'n gymhleth ac yn newid yn barhaus. Gyda chynghorydd gyrfa penodol wedi'i integreiddio i bob ysgol brif ffrwd ac ysgol arbennig yng Nghymru, gall myfyrwyr gael mynediad at wybodaeth a chymorth gyrfaoedd gydol eu taith addysgol. Er mwyn gwireddu hyn, rydym yn gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion i gytuno ar gynllun cyflwyno yn seiliedig ar anghenion yr ysgol a disgyblion unigol. Mae cynghorwyr gyrfa yn canolbwyntio ar anghenion tymor byr a thymor hir disgyblion, gyda phwyslais ar y canlynol:

- Ehangu gorwelion
- Codi ymwybyddiaeth o'r sgiliau y mae eu hangen yn y farchnad lafur fodern
- Datblygu'r sgiliau ar gyfer cynllunio gyrfa tymor byr a thymor hwy
- Darparu cymorth ar adegau pontio allweddol i ddisgyblion sydd ei angen i'w hatal rhag cael eu colli o addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant.

[3] Yn seiliedig ar bobl ifanc mewn ysgolion prif ffrwd ar system Rheoli Perthynas â Chwsmeriaid Gyrfa Cymru gyda dyddiad geni rhwng 1 Medi 2007 a 31 Awst 2008. Data a gasglwyd ar 30 Mehefin 2024 ac yn cynnwys yr holl gyfweliadau a gyflwynwyd i'r garfan ym Mlwyddyn 10 ac 11 hyd at y dyddiad hwnnw. Cyfanswm nifer y garfan yw 33,469.



# ASTUDIAETH ACHOS

## Stori Owen



Roedd Owen yn astudio teithio a thwristiaeth yn ystod ei flwyddyn gyntaf yn y coleg. Wrth fyfyrio ar yr amser hwn, dywedodd: *"Roeddwn i'n teimlo fy mod wedi fy nghyfyngu gan nad oedd gen i arian, dim gwaith, dim cyfleoedd, ac roeddwn i'n teimlo fel pe bai fy ffrindiau gam neu ddau o'm blaen i."*

Ar ôl rhannu ei bryderon gyda'i ddarlithwyr, gwnaeth Owen ymgymryd â gweithdy grŵp a gynhaliwyd gan Gyrfa Cymru yn ei goleg. Yna cafodd ei baru â chynghorydd gyrfa, Lara, am gymorth unigol.

Yn ystod sesiynau un-i-un wythnosol, byddai Lara yn tywys Owen i archwilio llwybrau gyrfa posibl. Buont yn edrych ar ei sgiliau a'i ddiddordebau, yn ogystal â'r camau nesaf addas iddo.

Gyda chymorth CV a ffurflen gais, llwyddodd Owen i gael swydd yn B&Q. Galluogodd hyn iddo gynilo arian a pharhau i archwilio'r hyn yr oedd am ei wneud yn y tymor hir. Parhaodd Lara ac Owen i gyfarfod yn fisol, lle byddai Lara yn cynorthwyo Owen i wneud y penderfyniadau a arweiniodd at ei daith prifysgol.

Ar ôl penderfynu ei fod am ennill cymhwyster rheoli digwyddiadau, roedd gan Owen benderfyniad anodd i'w wneud ynghylch ble yr oedd am astudio. Gyda chymorth Lara, roedd Owen wedi magu'r dewrder a'r uchelgais i adleoli a chofrestru ym Mhrifysgol Gorllewin yr Alban.

Mae Owen yn myfyrio'n gadarnhaol ar y cymorth a gafodd gan Gyrfa Cymru: *"Rhoddodd fy sesiynau gyda Lara gymaint o syniadau i mi o'r hyn y gallwn ei wneud a sut y gallwn ei wireddu. Roedd fy meddwl i ar chwâl, ond bu'n rhyddhad enfawr i gael cymorth i ystyried fy nyfodol.*

*"I don't know where I'd be without her. I still benefit from Careers Wales services now. I use the website to look at job options and the questionnaires to figure out my next steps on from here. It helps bring me back to focus."*

Mae Owen nawr yn edrych ymlaen at gael swydd ym mis Medi ym maes rheoli digwyddiadau fel rhan o'i radd.

Yng Nghyfnod Allweddol 3 y byddwn yn dechrau ymgysylltu'n uniongyrchol â phobl ifanc i ddatblygu eu dealltwriaeth o'r amrywiaeth o opsiynau sydd ar gael iddynt. Mae ein gwaith yng Nghyfnod Allweddol 3 yn canolbwyntio ar ehangu gorwelion a chodi dyheadau pobl ifanc ym mlynyddoedd 8 a 9 wrth iddynt baratoi i wneud eu dewisiadau o ran pynciau. Rydym yn defnyddio amrywiaeth o offer i wneud hyn, gan gynnwys sesiynau grŵp, cyfweliadau, cwisiau ar-lein a sesiynau rhyngweithiol.

Cyflwynir myfyrwyr Cyfnod Allweddol 4 i'r byd gwaith sy'n esblygu, a chânt eu hanog i ddysgu mwy am eu hopsiynau o ran gyrfa, a sut i gymryd eu camau nesaf. Ein ffocws yn y cyfnod allweddol hwn yw cynorthwyo pobl ifanc i symud ymlaen i gam nesaf eu haddysg a'u gyrfa. Mae ein gwaith ni'n cynnig cymorth i ddisgyblion, sydd wedi'i wahaniaethu i ddiwallu eu hanghenion unigol. Dyrennir dysgwyr i un o bedwar categori cymorth:

**1** **Cymorth cyffredinol**
pob dysgwr yn cael cymorth ar ffurf sesiynau grŵp, y wefan (gan gynnwys gwe-sgwrs) a thros y ffôn.

**2** **Cymorth Gwirio Gyrfa**
y rhai sy'n nodi eu bod angen cyfarwyddyd a chymorth hyfforddi trwy ein harolwg Gwirio Gyrfa.

**3** **Cymorth wedi'i dargedu**
wedi'i anelu at y bobl ifanc hynny sydd angen cymorth ychwanegol i bontio'n gadarnhaol i gyflogaeth, addysg a hyfforddiant.

**4** **Cymorth anghenion dysgu ychwanegol**
Cymorth anghenion dysgu ychwanegol

Mae cynghorwyr gyrfa ar gael i gynorthwyo pobl ifanc mewn addysg ôl-16 yn y chweched dosbarth ac yn y coleg. Mae'r cymorth yn canolbwyntio'n bennaf ar y dysgwyr hynny y nodwyd eu bod mewn perygl o beidio â chwblhau eu cwrs ôl-16 ac ar eu hatal rhag dod yn unigolion NEET[4].

[4] Nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant

Mae gennym dîm o gynghorwyr gyrfa sydd hefyd yn cynorthwyo pobl ifanc sy'n cael eu haddysgu mewn lleoliad y tu allan i ysgolion prif ffrwd (addysg heblaw yn yr ysgol) neu gartref, gan sicrhau cydraddoldeb o ran mynediad at gyfarwyddyd a hyfforddiant gyrfa. Yn 2024–2025, cynyddwyd ein hadnoddau ar gyfer y grŵp hwn yn unol â meintiau cynyddol y carfanau.

I lawer o bobl ifanc, rydym yn cydnabod mai rhieni a gofalwyr yw'r dylanwadwyr allweddol ar benderfyniadau gyrfa eu plant. Mae ymgysylltu a chydweithio â rhieni yn flaenoriaeth allweddol i ni, gan roi gwybodaeth a chyngor cyfoes iddynt er mwyn cefnogi eu plentyn wrth gynllunio gyrfa. Mae ein cynghorwyr yn bresennol mewn nosweithiau rhieni a digwyddiadau lle gallant rannu'r wybodaeth ddiweddaraf am opsiynau a'r farchnad lafur.

Mae ein cylchlythyrau tymhorol wedi cael croeso brwd gan ysgolion a rhieni, fel ei gilydd. Caiff y cylchlythyr i rieni ei rannu â phob ysgol uwchradd yng Nghymru, ac yna gofynnir iddyn nhw ei rannu'n uniongyrchol â rhieni. Rydym yn cyhoeddi cylchlythyr prif ffrwd ac ADY, wedi'i deilwra'n benodol ar gyfer y gynulleidfa berthnasol. Roedd y cylchlythyr diweddaraf yn cynnwys gwahoddiad i rieni gysylltu â ni pe bai ganddynt ddiddordeb mewn cydweithio â ni i ddatblygu a gwella ein dull o weithio gyda rhieni.

Yn ystod y flwyddyn academaidd, cyflwynwyd adroddiadau ffeithlun tymhorol ar gyfer ysgolion prif ffrwd ac ysgolion arbennig ledled Cymru. Mae'r manylion sydd yn yr adroddiad yn dangos amrywiaeth a maint yr wybodaeth, y cyngor a'r canllawiau gyrfa sydd ar gael, a'r gweithgareddau ymgysylltu â chyflogwyr sydd yn cael eu cynnig, ochr yn ochr â chefnogaeth athrawon ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm. Mae adborth yr ysgolion ar y manylder hwn wedi bod yn gadarnhaol, gyda llawer o benaethiaid yn nodi eu bod yn defnyddio'r wybodaeth yn eu hadroddiadau i'r llywodraethwyr, ac yn ystod arolygiadau Estyn. Caiff yr adroddiadau hefyd eu rhannu â chyfarwyddwyr addysg ac Aelodau'r Senedd.

Eleni, trosglwyddwyd ein harolwg Gwirio Gyrfa yn llwyddiannus o'r platfform Smart Survey i Atlas, ein hofferyn CRM . Mae Gwirio Gyrfa yn helpu i nodi anghenion cyfarwyddyd y garfan fel y gallwn alinio ein gwasanaethau i gynorthwyo eu taith gyrfa. Bydd y system newydd yn ffordd fwy effeithlon o baru canlyniadau arolygon â chofnodion cwsmeriaid unigol yn gywir, gan leihau costau o ran adnoddau staffio a ffioedd trwyddedu.


CYLCHLYTHYR RHIENI
Haf 2024

Gyrfa Cymru
Careers Wales

Sut gallwn ni helpu

Mae Gyrfa Cymru yma i'ch cefnogi chi a'ch plentyn i wneud y penderfyniadau addysg a gyrfa cywir.

Cefnogi pobl ifanc

**Gall ein cynghorwyr gyrfa wneud y canlynol:**

- rhoi gwybodaeth, cyfarwyddyd ac anogaeth gyrfaoedd diduedd
- deall cryfderau, diddordebau a gwerthoedd eich plentyn i helpu i nodi llwybrau gyrfa posibl
- cyfarwyddo'ch plentyn wrth iddo ddewis pynciau
- rhannu gwybodaeth am opsiynau gyrfa, diwydiannau, a marchnadoedd swyddi amrywiol
- helpu'ch plentyn i osod nodau tymor byr a hirdymor cyraeddadwy sy'n gysylltiedig â'i uchelgais gyrfa
- cefnogi'ch plentyn os bydd yn wynebu anawsterau a heriau

*Mae ein cynghorwyr gyrfa yn teilwra eu dull yn dibynnu ar oedran ac anghenion eich plentyn.*

Cefnogi pobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol

- Os oes gan eich plentyn Gynllun Datblygu Unigol efallai y bydd y cynghorydd gyrfa yn cael ei wahodd i'w adolygiad blynyddol i drafod ei bontio o'r ysgol. Gall y cynghorydd gyrfa roi gwybodaeth a chyngor ar opsiynau ar ôl gadael yr ysgol a'ch cyfeirio at asiantaethau eraill a allai hefyd eich cefnogi chi a'ch plentyn wrth iddo adael yr ysgol.

1

[5] Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid

## Cymorth i bobl ifanc sy'n cael eu haddysg yn y cartref

Mae cynghorwyr gyrfa ledled Cymru yn gweithio gyda phobl ifanc sy'n cael eu haddysg yn y cartref, gan gynnig cyfarwyddyd iddyn nhw a'u teuluoedd i'w gwneud yn ymwybodol o opsiynau ôl-16 a'u helpu i symud ymlaen i addysg bellach, hyfforddiant neu gyflogaeth.

Rydym yn cysylltu ag awdurdodau lleol i sicrhau bod ein neges yn cyrraedd teuluoedd yn ogystal â hyrwyddo ein gwasanaethau ar y cyfryngau cymdeithasol. Yn 2024–2025 cynhaliwyd tri digwyddiad byw hefyd gennym wedi'i anelu yn benodol at bobl ifanc a rhieni sy'n addysgu yn y cartref. Cymerodd tua 50 o deuluoedd ran ym mhob sesiwn lle'r oedd cynghorwyr yn amlinellu opsiynau a thrafod y sgiliau rheoli gyrfa y mae eu hangen ar bobl ifanc i lywio eu llwybr gyrfa yn llwyddiannus.

Yn ogystal ag adran bwrpasol ar ein gwefan, rydym wedi creu Padlet i ganiatáu i deuluoedd ddod o hyd i wybodaeth berthnasol yn gyflym ac mewn un lle. Mae hyn yn cynnwys taflenni yn ogystal â dolenni i ragor o wybodaeth, erthyglau newyddion ac astudiaethau achos.

Mae ein data yn dangos, pan fydd teuluoedd yn ymgysylltu â chynghorydd gyrfa, bod yr unigolyn ifanc yn llawer mwy tebygol o fynd yn ei flaen i addysg bellach, hyfforddiant neu gyflogaeth, ac mae'r teuluoedd sydd yn ymgysylltu yn gadarnhaol iawn ynglŷn â'n gwasanaeth ni.

## ASTUDIAETH ACHOS

### Roedd cymorth pwrpasol wedi galluogi Frankie i ddechrau ei gyrfa ddelfrydol

**Cafodd Frankie, 16 oed, ei haddysgu gartref tra roedd hi'n ofalwr i'w mam a'i thad. Yn anffodus, collodd hi ei thad yn ystod hydref 2023. Yn ei galar, teimlai Frankie awydd i edrych ar yr opsiynau a oedd ganddi ar gyfer ei dyfodol.**

**Dywedodd: "Ar ôl i mi golli fy nhad, roeddwn i'n teimlo fy mod angen rhywbeth i'w wneud gan fy mod adref drwy'r dydd. Roeddwn i'n gofalu am fy mam i, ond roedd gen i gymaint o amser ar fy nwylo i feddwl am ba mor drist yr oeddwn i'n teimlo."**

**Cyfarfu Frankie â'r cynghorydd gyrfa, Anita, yng nghanolfan gyrfa Casnewydd. Buont yn trafod opsiynau Frankie, gan gynnwys ei huchelgeisiau i weithio ym maes trin gwallt. Bu Anita hefyd yn helpu Frankie i wneud cais i'r awdurdod addysg lleol i sefyll ambell arholiad TGAU, a sicrhaodd gymorth ychwanegol i Frankie**

i'w helpu i ddeall gofynion yr arholiadau ac er mwyn rhoi'r offer a'r adnoddau ar-lein iddi i baratoi. Yn ogystal â hyn, cyflwynodd Anita atgyfeiriad am gymorth i ofalwyr ifanc trwy elusen Barnardo's.

Roedd Frankie yn awyddus iawn i fynd i'r coleg yng Nghasnewydd i wneud cwrs trin gwallt lefel 1. Pan gynhalion nhw ddiwrnod agored, anogodd Anita y coleg i ddarparu slot amser ar gyfer pobl ifanc a oedd wedi cael eu haddysgu yn y cartref.

Aeth Anita i ddigwyddiad y coleg gyda Frankie, lle cawson nhw gyfle i fynd ar daith dywys a siarad â thiwtoriaid. Roedd Frankie wrth ei bodd â'r cyfleusterau, a chafodd ei derbyn ar y cwrs.

Mynegodd Frankie ddiddordeb hefyd mewn gwneud cais am gyflogaeth. Bu Anita hefyd yn ei helpu i gwblhau CV a rhoddodd gymorth i Frankie i ddeall y broses o wneud cais am swyddi a phrentisiaethau.

Cysylltodd Frankie ag Anita i gael cymorth i benderfynu ar ei chamau nesaf pan gafodd gynnig cyfweliad am brentisiaeth mewn siop trin gwallt leol.

Dywedodd Anita: *"Roedd Frankie'n cloffi rhwng dau feddwl ynghylch a oedd hi eisiau gwneud cais am hyn neu fynd i'r coleg gan ei bod hi'n benderfynol am fynd i'r coleg. Buon ni'n trafod pwysigrwydd cadw opsiynau'n agored. Buon ni hefyd yn siarad am y pethau cadarnhaol am fynd i gyfweliad, a pha mor ddefnyddiol fyddai deall beth y byddai'n ei olygu pe na bai'n cael y swydd."*

Yn dilyn y cyfweliad, cynigiwyd cyfnod prawf i Frankie yn y siop trin gwallt. Ar ôl cwblhau'r cyfnod prawf, llwyddodd i sicrhau prentisiaeth.

Dywedodd Frankie: *"Mae popeth yn mynd yn dda iawn. Helpodd Anita gymaint gyda fy hyder i, a helpodd fi i ystyried dyfodol gwell. Rydw i mor falch o gael dysgu sut i fod yn steilydd gwallt, a fydd hyn yn fy helpu i gael swydd yn y maes trin gwallt."*



## Hynt disgyblion 2024

Rydym yn cynnal arolwg blynyddol o unigolion sy'n ymadael â'r ysgol, sy'n taflu goleuni ar y llwybrau dilyniant mewn addysg, cyflogaeth a hyfforddiant a ddewisir gan bobl ifanc. Mae'n rhoi cipolwg defnyddiol o hynt disgyblion, sy'n llywio'r staff gyrfaoedd yn eu gwaith gyda chwsmeriaid, rhieni, athrawon a chyflogwyr, yn ogystal â chynorthwyo partneriaid a chydweithwyr sy'n ymwneud â chynllunio cyfleoedd dysgu, hyfforddi a chyflogaeth.

Wrth gymharu data 2024 â blynyddoedd blaenorol, mae'n bwysig ystyried ffactorau dylanwadol eraill, yn benodol y gyfradd 'dim ymateb' uchel yn 2018, ac absenoldeb unrhyw arholiadau allanol yn 2020 a 2021 oherwydd pandemig COVID-19.

Mae canfyddiadau allweddol o'r arolwg o 55,478 o ymadawyr â'r ysgol o flynyddoedd 11, 12 ac 13 yn 2024 yn cynnwys y canlynol:

- Roedd canran disgyblion blwyddyn 11 a oedd yn gadael yr ysgol ac yn dychwelyd i addysg amser llawn yn **87.5%** yn 2024, sy'n gynnydd o'i gymharu â ffigwr 2023 o 86.7%, ond yn debycach i lefelau 2022 pan oedd yn **87.8%**.
- Yn 2024, roedd canran y disgyblion blwyddyn 11 a oedd yn gadael yr ysgol nad oeddent mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth (NEET) yn **2.4%**. Mae hwn yn gynnydd bach o'i gymharu â 2023, pan oedd yn hysbys bod **2%** o'r rhai a adawodd yr ysgol yn NEET.
- Roedd y ganran gyfunol a oedd yn ymuno â'r farchnad lafur (cyflogaeth, hyfforddiant seiliedig ar waith gyda statws cyflogedig ac anghyflogedig) o bob grŵp blwyddyn yn 2024 yn **8.2%**, ffigur ychydig is nag yn 2023.



**Prif Ganfyddiadau - Hynt disgyblion o ysgolion yng Nghymru 2024**

Mae'r adroddiad llawn i'w weld yma: Hynt disgyblion 2024

# Gweithio gyda chyflogwyr ac ysgolion

- Hwyluswyd **1,704** o weithgareddau pwrpasol gennym, a arweiniwyd gan gyflogwyr mewn ysgolion uwchradd ledled Cymru. Roedd y rhain yn cynnwys ystod o weithgareddau gan un neu sawl cyflogwr, gan gynnwys ymweliadau safle, digwyddiadau penodol ar gyfer y cwricwlwm a diwrnodau carwsél, a oedd yn cynnwys amrywiaeth o wahanol weithgareddau y gallai dysgwyr eu gwneud yn eu tro. Gwnaethom gyflawni ein nod o gyflwyno o leiaf bum gweithgaredd ar gyfartaledd o dan arweiniad cyflogwyr ym mhob ysgol uwchradd yng Nghymru.

- Gwnaethom barhau i ddarparu gwasanaeth ymgysylltu â chyflogwyr pwrpasol i ysgolion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion, gyda **197** o sesiynau'n cael eu cefnogi mewn **69** o leoliadau gwahanol.

- Cyflwynwyd **641** o sesiynau hyfforddi ac ymgynghori gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith gennym, gan gynorthwyo **1,384** o athrawon unigol mewn **165** o ysgolion uwchradd, ysgolion arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion ledled Cymru. Bu'r sesiynau hyn yn canolbwyntio ar bynciau allweddol, megis ymgorffori gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith yn y cwricwlwm, arwain rhaglenni gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith, gwybodaeth am y farchnad lafur, ac offer ac adnoddau gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith.

- Gwnaethom barhau i ddatblygu ein cymorth i ysgolion cynradd, a darparwyd ymgynghoriaeth gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith a/neu ddysgu proffesiynol o bell mewn **73** o ysgolion.

**Mae ein tîm o gynghorwyr cyswllt busnes yn dod ag ysgolion a chyflogwyr ynghyd, gan gefnogi cydweithio gyda'r nod o hysbysu, ysbrydoli a chymell pobl ifanc o ran eu cyfleoedd gyrfa.**

Yn unol â datblygiadau sy'n gysylltiedig â'r Cwricwlwm i Gymru, dechreuodd ein gwaith busnes addysg ganolbwyntio mwy ar ymgorffori gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith yn y cwricwlwm, gyda'r nod o gefnogi ymgysylltiad penodol i bynciau, gyda llai o bwyslais ar fewnbwn cyflogwyr traddodiadol.




Dangosodd ymchwil defnyddwyr gydag ysgolion fod mynd i ddigwyddiadau gyrfaoedd mawr yn mynd yn anoddach oherwydd costau cludiant ac athrawon llanw. Mewn ymateb, aethom ati i ddatblygu cyfres o heriau cwricwlwm Gwaith mewn Ffocws yn seiliedig ar sectorau i gynorthwyo ymgorfforiad pellach gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith yn y Cwricwlwm i Gymru.  Bellach, mae'r heriau canlynol wedi'u cwblhau ac ar gael i'w defnyddio mewn ysgolion:

- Defnyddio Mathemateg yn y sector lled-ddargludyddion cyfansawdd gyda Vishay
- Defnyddio Ieithoedd mewn twristiaeth a lletygarwch gyda The Celtic Collection
- Defnyddio Technoleg ym maes technoleg ariannol gyda Starling Bank
- Defnyddio Technoleg Bwyd yn y sector bwyd a diod gyda Selwyn's Seafoods
- Defnyddio Cyfrifiadureg yn y sector seiberddiogelwch gydag Iechyd a Gofal Digidol Cymru
- Defnyddio Peirianneg yn y sector gweithgynhyrchu gwerth uchel gyda Toyota
- Defnyddio Celf a Dylunio cynaliadwy yn y sector teledu a ffilm yng Nghymru gydag Into Film

Rydym wedi cyflwyno'r heriau hyn mewn sawl ysgol ledled Cymru ac wedi'u gwerthuso gyda dysgwyr ac athrawon:

- Dywedodd **89%** o ddysgwyr fod yr her wedi rhoi mwy o wybodaeth iddynt am gyfleoedd gyrfa yn y sector.
- Roedd **82%** o'r farn bod yr her wedi eu helpu i ddeall y cysylltiad rhwng dysgu yn yr ystafell ddosbarth a byd gwaith.
- Roedd **100%** o athrawon o'r farn bod yr her wedi codi ymwybyddiaeth dysgwyr o gyfleoedd gyrfa yn y sector.
- Dywedodd **83%** fod yr her wedi helpu dysgwyr i ddeall y cysylltiad rhwng dysgu yn yr ystafell ddosbarth a byd gwaith.
- Roedd **83%** o'r farn bod yr her wedi ysgogi ac ysbrydoli dysgwyr am eu gyrfaoedd yn y dyfodol.

I gefnogi gwaith cwricwlwm pwrpasol, mae ein cronfa ddata chwiliadwy genedlaethol o gyflogwyr, y Gyfnewidfa Addysg Busnes, yn parhau i fod ar gael i ysgolion. Mae ysgolion yn parhau i gael mynediad at ystod o adnoddau cyflogwyr digidol sy'n cynnwys Darganfod Gyrfa ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd, llyfrgell o fideos gan gyflogwyr a phecynnau cyflogwyr digidol sy'n gysylltiedig â'r meysydd dysgu a phrofiad..



ASTUDIAETH ACHOS

# Her Gwaith Mewn Ffocws Cymraeg yn y Gweithle gydag Ysgol Tryfan a Chyngor Gwynedd

Mae hyrwyddo'r iaith Gymraeg fel sgìl bwysig yn y gweithle yn ganolog i'n gwaith ni. Yn 2024–2025, bu'n tîm ni'n canolbwyntio ar y sector iechyd a gofal cymdeithasol, lle mae'r Gymraeg yn rhan hanfodol o ddarparu gwasanaethau, yn enwedig mewn cymunedau Cymraeg eu hiaith yn bennaf.

Buom yn gweithio mewn partneriaeth â Chyngor Gwynedd ac Ysgol Tryfan ym Mangor i greu Her Gwaith Mewn Ffocws. Ochr yn ochr â Chyngor Gwynedd, buom yn edrych yn fanwl ar gwricwlwm TGAU iechyd a gofal cymdeithasol, deddfwriaeth y Gymraeg, ac adnoddau eraill yr oedd Cyngor Gwynedd eisoes wedi'u cynhyrchu i hyrwyddo gyrfaoedd ym maes gofal. Yn dilyn hyn, trefnwyd cyfarfod ag Ysgol Tryfan i gael eu barn nhw ar sut y gellid gwneud yr her yn berthnasol i astudiaethau'r disgyblion.

Cynhaliwyd yr Her Gwaith mewn Ffocws dros dair sesiwn:

## Sesiwn 1

Cyflwynodd Cyngor Gwynedd bwysigrwydd y Gymraeg yn y sector gofal cymdeithasol gan roi trosolwg o rolau swyddi a chyfleoedd lleol, yn enwedig yng Ngwynedd.

## Sesiwn 2

O dan arweiniad yr athro, defnyddiodd y sesiwn hon gynllun gwers a ddatblygwyd gennym ni a Chyngor Gwynedd. Cynorthwywyd dysgwyr gydag awgrymiadau ac adnoddau i gwblhau'r her, a oedd yn cynnwys creu fideos byr ar lwyfannau megis TikTok.

## Sesiwn 3

Dychwelodd ein tîm a Chyngor Gwynedd i wylio'r dysgwyr yn cyflwyno eu gwaith mewn grwpiau bach. Roedd y sesiwn anffurfiol hon yn caniatáu trafodaeth ac yn atgyfnerthu gwerth y Gymraeg fel sgìl ar gyfer cyflogaeth yn y dyfodol. Roedd y dysgwyr yn deall hyn yn glir, gan fod pob grŵp yn ei adlewyrchu yn eu fideos.

I adeiladu ar y profiad, mae Cyngor Gwynedd wedi trefnu ymweliad â chartref gofal preswyl, gan roi cyfle i ddysgwyr archwilio gwaith gofal ymhellach a rhyngweithio â staff a phreswylwyr yn y Gymraeg.

Dywedodd Gwenno Williams, Swyddog Marchnata a Datblygu Gyrfaoedd Gofal Cyngor Gwynedd: *"Mae'r Gymraeg mor bwysig wrth ofalu, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig fel Gwynedd, ac felly roedd y cyfle i weithio ar her Cymraeg yn y Gweithle yn wych i ni fel cyflogwr. Yn aml, dydw i ddim yn credu bod pobl yn gwerthfawrogi bod siarad Cymraeg yn gymaint o arf, ac felly mae cael y cyfle i bwysleisio hyn i bobl ifanc mewn ffordd ryngweithiol yn bwysig ac yn gyfle unigryw i ni fel cyflogwr i ddylanwadu ar sgiliau'r gweithlu yn y dyfodol.*

"Mae gennym gydberthynas dda gyda'n cynghorydd cyswllt busnes Gyrfa Cymru, John, felly roeddem yn falch o gael y cyfle i weithio gydag ef. Bu'n gyfle da i ni gael gwell dealltwriaeth o waith ein gilydd a meithrin ein sgiliau ein hunain drwy gynllunio'r her a chreu cynlluniau gwersi ac adnoddau i fynd gyda hi."

Dywedodd disgybl iechyd a gofal cymdeithasol yn Ysgol Tryfan:

*"I learnt a lot about the sector and the different types of jobs. It's given me new ideas of what I can do."*

Dywedodd Ruth Thomas, athrawes iechyd a gofal cymdeithasol yn Ysgol Tryfan:

*"Mae'r her Cymraeg yn y Gweithle wedi rhoi cipolwg i'r disgyblion ar yr amrywiaeth eang o swyddi sydd ar gael o fewn y sector gofal cymdeithasol, a'i arwyddocâd economaidd yma yng Ngogledd Cymru. Ac yr un mor bwysig, mae wedi dangos i'r disgyblion sut y gall siarad Cymraeg wneud gwahaniaeth mawr i fywydau pobl sy'n derbyn gofal. Gobeithio bod cyflwyno'r her mewn ffordd hwyliog a rhyngweithiol wedi'i gwneud yn fwy diddorol i'r disgyblion, ac roedd y ffaith ei bod yn bodloni meini prawf y cwricwlwm iechyd a gofal cymdeithasol yn bwysig i'r athro. Felly, roedd y profiad cyfan yn gadarnhaol i bawb a oedd yn rhan ohono."*

## Menter Partneriaid Gwerthfawr Ysgolion

Mae'r fenter Partneriaid Gwerthfawr Ysgolion yn rhoi cydnabyddiaeth i gyflogwyr sy'n cefnogi ysgolion unigol trwy ein gweithgareddau ymgysylltu â chyflogwyr.

Drwy'r fenter, rydym yn nodi cyflogwyr sydd â pherthynas barhaus ag ysgol ac sy'n cefnogi eu gweithgareddau'n rheolaidd. Cânt eu cydnabod wedyn fel Partner Gwerthfawr yr ysgol.



Mae'r fenter wedi'i datblygu ymhellach yn 2024–2025. Ar hyn o bryd rydym yn cynnal dros **100** o bartneriaethau ledled Cymru. Eleni, defnyddiwyd y fenter yn benodol i drefnu 'cyfarfyddiadau athrawon' – cyfleoedd i athrawon ddysgu am gyflogwyr lleol allweddol drwy gynnal ymweliadau a chyflwyniadau. Cymerodd **383** o athrawon ran mewn **34** o gyfarfyddiadau athrawon ffurfiol, gyda sefydliadau megis Starling Bank, Vishay, Aber Instruments, Willmott Dixon a British Airways. Cafodd llawer o'n cyflogwyr Partner Gwerthfawr eu cydnabod yn seremoni flynyddol y Gwobrau Partneriaid Gwerthfawr, a gynhaliwyd yn y Senedd ym mis Ionawr 2025, gyda'r brif araith yn cael ei thraddodi gan y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol, Jack Sargeant.

## Cyn-ddisgyblion

Yn 2024–2025 gwnaethom barhau i gynnig cymorth i ysgolion i ddatblygu eu cymunedau cyn-ddisgyblion. Bellach, mae gennym dros **1,800** o gyn-ddisgyblion wedi cofrestru, sy'n gysylltiedig â thros **130** o ysgolion. Rydym yn defnyddio cyn-ddisgyblion yn rheolaidd i gefnogi gweithgareddau busnes mewn addysg ac mae gennym enghreifftiau gwych o gyn-ddisgyblion proffil uchel yn ymgysylltu â'u cyn-ysgolion.




## Digwyddiadau Beth Nesaf

Gwnaethom barhau i gynnal ffeiriau gyrfaoedd rhanbarthol 'Beth Nesaf' mawr wedi'u hanelu at ddysgwyr ADY. Mae nifer fawr o ysgolion arbennig ac ysgolion uwchradd prif ffrwd sydd â darpariaeth arbenigol yn dod i'r digwyddiadau hyn, ac fe'u cefnogir gan ystod eang o gyflogwyr.



## Profiad gwaith wedi'i deilwra


Ar ôl llwyddo i leoli dros **630** o bobl ifanc mewn lleoliadau rhwng 2022 a 2024 fel rhan o'r prosiect Profiad Gwaith wedi'i Deilwra a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, cawsom ein comisiynu i drefnu profiad gwaith wedi'i deilwra i **250** o bobl ifanc ychwanegol yn 2024–2025. Felly, gwnaethom leoli **272** o ddysgwyr o **27** o ysgolion mewn pum ardal glwstwr ledled Cymru. Gan fod y prosiect wedi bod mor llwyddiannus, mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i ni ei ddarparu fel rhan o'n cynnig craidd o fis Ebrill 2025 ymlaen.



## Syniadau Mawr Cymru

Gwnaethon ni barhau i gyflwyno prosiect Syniadau Mawr Cymru Llywodraeth Cymru mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, gyda'r nod o hyrwyddo entrepreneuriaeth a dechrau busnes i bobl ifanc. Yn ystod Wythnos Entrepreneuriaeth y Byd ym mis Tachwedd 2024, lansiwyd cystadleuaeth newydd gennym i ddod o hyd i ysgolion cynradd mwyaf mentrus Cymru mewn tri chategori – eco / cynaliadwyedd, creadigrwydd / arloesedd ac effaith gymdeithasol / cymunedol, gydag enillwyr pob categori yn cael gwobr ariannol o £2,500, a chyfres o wobrau o £100 i'r rhai a gyrhaeddodd y rhestr fer. Bydd y gystadleuaeth yn parhau yn ystod blwyddyn fusnes 2025–2026. Mewn ysgolion uwchradd, hwyluswyd cyfanswm o **1,249** o weithdai modelau rôl entrepreneuriaeth gyda thros **35,500** o ddysgwyr.

Gwnaethon ni barhau i hyrwyddo'r adnoddau a ddatblygwyd gennym ni yn ystod 2023–2024 fel rhan o gontract Syniadau Mawr Cymru i gynorthwyo athrawon i ymgorffori entrepreneuriaeth yn eu haddysgu fel rhan o'r Cwricwlwm i Gymru. Mae'r adnoddau'n cynnwys pecyn cymorth menter ac entrepreneuriaeth i athrawon a Banc Syniadau Menter (cyfres o syniadau ymarferol i ymgorffori entrepreneuriaeth mewn ffyrdd diddorol), sydd wedi denu cyfanswm o dros **4,000** o ymweliadau ar Hwb. Gwnaethom hefyd gynhyrchu canllawiau cychwyn busnes ar gyfer pobl ifanc, rhieni ac athrawon yr ydym yn eu defnyddio mewn gweithdai modelau rôl.




**Mae ein tîm o gydlynwyr gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith yn anelu at feithrin sgiliau, gwybodaeth a hyder gweithwyr addysg proffesiynol i gyflwyno rhaglenni gyrfaoedd effeithiol ac integreiddio gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith yn effeithiol yn eu cwricwlwm.**

Rydym yn parhau i gynnig amrywiaeth o adnoddau proffesiynol i athrawon i'w helpu i ymgorffori gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith yn y cwricwlwm, megis ein pecyn cymorth a'n hadnoddau addysg gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith, yn ogystal ag adnoddau ystafell ddosbarth megis Dinas Gyrfaoedd a CrefftGyrfaoedd, sydd wedi cael cyfanswm o dros 11,300 o ymweliadau ar Hwb.

Cyflawnodd 11 o arweinwyr gyrfaoedd (allanol i'r cwmni) ein cymhwyster blaenllaw, tystysgrif lefel 6 mewn Arweinyddiaeth Gyrfaoedd, a gymeradwyir gan yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol. Mae carfan arall o athrawon o bob cwr o Gymru wedi cychwyn ar y cwrs. Bydd ceisiadau ar gyfer carfan 2025–2026 yn agor yn haf 2025, ac am y tro cyntaf bydd yn cynnwys athrawon cynradd. Gwnaethon ni hefyd lansio calendr dysgu proffesiynol newydd sy'n cynnwys defnyddio deallusrwydd artiffisial i gynhyrchu cynnwys gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith mewn meysydd dysgu a phrofiad ac wrth addysgu pynciau.

Mae cynllun peilot GAGC bellach yn ei ail flwyddyn. Mae tri cham i GAGC (arweinyddiaeth, datblygiad ac effaith) ac mae'n cyd-fynd yn agos â chanllawiau'r Cwricwlwm i Gymru.  Yn 2023–2024, dechreuodd 36 o ysgolion ar gam cyntaf y wobr (pum ysgol gynradd, pedair ysgol 'pob oed', 21 o ysgolion uwchradd, pum ysgol arbennig ac un uned cyfeirio disgyblion) ac rydym yn falch iawn o gael dweud bod 34 o ysgolion wedi cyflawni'r cam cyntaf yn llwyddiannus yn ystod haf 2024. Mae adborth y gwerthusiad yn dangos bod y wobr wedi bod yn hynod ddefnyddiol o ran gosod y sylfeini ar gyfer darpariaeth gyrfaoedd a phrofiadau byd gwaith o ansawdd uchel. Mae'r ysgolion hynny bellach wedi symud ymlaen i ail gam y wobr, ynghyd ag 13 o ysgolion eraill a ddechreuodd y cam cyntaf eleni. Y gobaith yw y bydd llawer ohonynt yn cwblhau'r cam hwnnw yn ystod haf 2025, gyda'r nod o gwblhau'r wobr lawn yn ystod 2026.



# Cymru'n Gweithio

Cymru'n Gweithio
Working Wales

Mae ein gwasanaeth Cymru'n Gweithio wedi'i dargedu at bobl ifanc 16-17 oed o'r adeg y maent yn gadael addysg hyd at fod yn oedolion 18+, waeth beth fo'u statws. Mae'r gwasanaeth yn cynorthwyo pobl at eu cyrchfan nesaf, gan gynnwys dysgu pellach, cyfleoedd hyfforddi, sicrhau cyflogaeth a chymorth diswyddo. Rydym yn cyfeirio at asiantaethau cyflogadwyedd a chefnogi perthnasol ac addas lle bo'n briodol.

Mae'r gwasanaethau wedi'u cynllunio i fod yn gynhwysol, yn hygyrch ac yn gynhwysfawr, a gellir eu darparu o ganolfannau gyrfaoedd, canolfannau gwaith, ac ystod o leoliadau allgymorth a chymunedol eraill, megis llyfrgelloedd.

## Cynghorwyr gyrfa ac anogwyr cyflogadwyedd

**Darperir cymorth gan ein cynghorwyr gyrfa a'n hyfforddwyr cyflogadwyedd mewn fformat cymysg i weddu anghenion a dewisiadau cwsmeriaid, gan gynnwys cyfweliadau wyneb yn wyneb, sesiynau grŵp, dros y ffôn, dros fideo a gwe-sgwrs.**

**Pobl ifanc:**
Cynorthwywyd **5,268** o bobl ifanc 15-17 oed yn ystod 2024–2025. Roedd y cymorth yn cynnwys **13,314** o ryngweithiadau uniongyrchol â chwsmeriaid unigol, gan gynnwys **4,931** o ryngweithiadau wyneb yn wyneb, **2,902** o gyfweliadau dros y ffôn, a **3,130** o ryngweithiadau a gynhaliwyd trwy ein gwasanaeth cymorth digidol a thros y ffôn, sef Cyswllt Gyrfa Cymru.  Gwnaethon ni hefyd gynnal **8,925** o ryngweithiadau eiriolaeth ar ran pobl ifanc gyda chyflogwyr, darparwyr dysgu ac asiantaethau cymorth.

**Oedolion:**
Rydym yn cynorthwyo oedolion sy'n 18 oed neu'n hŷn sy'n ddi-waith, yn economaidd anweithgar, neu'n wynebu diswyddiad, yn ogystal ag unigolion sy'n wynebu rhwystrau i ddilyniant. Rydym hefyd yn cynorthwyo oedolion cyflogedig sy'n ceisio cyngor, cyfarwyddyd a chymorth i uwchsgilio, ailhyfforddi neu newid cyfeiriad wrth gynllunio eu gyrfa. Yn ystod 2024–2025 cafodd **32,621** o oedolion gymorth gennym. Cyflawnwyd hyn drwy **92,607** o ryngweithiadau uniongyrchol â chwsmeriaid unigol, ac roedd hyn yn

cynnwys **36,033** o gyfweliadau wyneb yn wyneb, **19,962** o gyfweliadau dros y ffôn, a **2,010** o ryngweithiadau fideo. Yn ogystal â hyn, darparodd gwasanaeth Cyswllt Gyrfa Cymru **22,179** o ryngweithiadau cymorth. Gwnaethom hefyd gynnal **23,120** o ymyriadau eiriolaeth ar ran cwsmeriaid gyda chyflogwyr, darparwyr dysgu ac asiantaethau cymorth.

**Cymorth i fudwyr, ceiswyr lloches a ffoaduriaid:**

Gwnaethom gynorthwyo dros **300** o fudwyr, ceiswyr lloches a ffoaduriaid ledled Cymru.  .

Roedd hyn yn cynnwys:

- Rhoi trosolwg o wasanaethau i **45** o fewnfudwyr yng nghanolfan llety Lloches Caerdydd.
- Cyllid a chymorth i gwsmeriaid ar gyfer gwasanaeth Datganiad Cymharedd ENIC y DU, sy'n dangos sut mae cymwysterau a enillwyd dramor yn cymharu â fframweithiau cymwysterau'r DU. Gwnaethom gynorthwyo **316** o geisiadau gan gwsmeriaid a oedd yn fudwyr neu'n ffoaduriaid. Datblygwyd taflen cwsmeriaid ENIC i gyfleu'r diben, y buddion a'r broses ymgeisio yn gliriach i gwsmeriaid perthnasol.
- Nodi lleoliadau allgymorth a phartneriaid a all gyfryngu mynediad at ein gwasanaethau ar gyfer cwsmeriaid sy'n fudwyr.  Er enghraifft, eleni, dechreuom weithredu o Bafiliwn Grange yng Nghaerdydd yn wythnosol. Mae cymuned Somalïaidd fawr yn yr ardal leol, ac mae Pafiliwn Grange yn lleoliad poblogaidd yn lleol lle mae pobl yn ymgynnull i gymdeithasu, cael cymorth cyflogadwyedd, a chymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau a digwyddiadau.
- Darparu hyfforddiant parhaus i gynghorwyr i wella eu gwybodaeth a'u hyder wrth gynorthwyo cwsmeriaid sydd wedi cael eu gorfodi i fudo i Gymru. Roedd y pynciau dysgu yn cynnwys '*sut i gyfathrebu â phobl heb lawer o Saesneg*', a '*gweithio gyda ffoaduriaid*'.  Fel rhan o'r dysgu a'r datblygiad parhaus, cynhaliodd Llywodraeth Cymru a'r Rhwydwaith Cyflogi Ffoaduriaid sesiwn wybodaeth i wella ymwybyddiaeth cydweithwyr o swyddi gwag addas.
- Parhau â'n rolau fel 'eiriolwyr' mudwyr a ffoaduriaid. Mae hyn yn sicrhau bod gan bob rhanbarth arbenigwr â hyfforddiant, gwybodaeth a phrofiad ychwanegol yn y maes hwn, a all gynghori a mentora cydweithwyr yn ôl yr angen.
- Parhau i ymwneud â darpariaeth Saesneg ar gyfer siaradwyr ieithoedd eraill Partneriaeth Mewnfudo Strategol Cymru a'r grŵp cyflogadwyedd, a chynnal cysylltiadau rheolaidd â Chyngor Ffoaduriaid Cymru, gan gynnwys parhau â system atgyfeirio bwrpasol ar gyfer cwsmeriaid Cyngor Ffoaduriaid Cymru sy'n gofyn am ein cymorth.

**Cymorth adeg diswyddo:**
Fel rhan o wasanaeth ReAct+ Llywodraeth Cymru, mae ein timau'n gweithio'n agos gyda chyflogwyr ac unigolion sy'n wynebu colli eu swyddi, ar raddfa fawr a bach, ledled Cymru. Gwneir y gwaith hwn fel rhan o dîm ehangach o asiantaethau sy'n gweithredu ledled Cymru, gan gynnwys yr Adran Gwaith a Phensiynau a Cymunedau am Waith a Mwy, undebau llafur a thimau cyflogadwyedd awdurdodau lleol. Mae ein cynghorwyr yn cynnig cymorth a chyfarwyddyd i bobl sy'n aml yn wynebu profiadau trawmatig a heriol. Maent yn darparu pecynnau i gyflogwyr sy'n cynnwys cymorth ymateb cyflym ar unwaith, cyfarwyddyd gyrfaoedd un-i-un, cymorth sgiliau cyflogadwyedd, a chymorth i baratoi ceisiadau.

- Gweithiodd ein cynghorwyr gyda **2,142** o unigolion a oedd yn wynebu diswyddiadau, gan ddarparu **9,268** o ymyriadau un-i-un, yn ogystal â **3,564** o ymyriadau eiriolaeth a chyswllt ar ran y cwsmeriaid hyn. Gwnaethom hefyd gyflwyno **1,359** o gynlluniau camau gweithredu ReAct+ i gefnogi ceisiadau cwsmeriaid am gyllid.

- Gwnaethom ddarparu cymorth yn ystod nifer o ddiswyddiadau ar raddfa fawr trwy gyflwyno sesiynau gwybodaeth a chlinigau un-i-un ar y safle mewn adeiladau cyflogwyr neu mewn hybiau cymorth dynodedig. Buom yn cydweithio i ddarparu sesiynau grŵp ar y cyd â'r Adran Gwaith a Phensiynau a Cymunedau am Waith a Mwy fel bod cwsmeriaid yn cael gwybod am eu hopsiynau mewn perthynas â budd-daliadau, yn ogystal â'r cymorth yr ydym ni a'r rhaglen ReAct+ yn ei gynnig. Helpodd y dull integredig gan y tîm amlasiantaeth ymroddedig hwn i leihau'r anawsterau a'r heriau a wynebir gan gwsmeriaid yn ystod y cyfnod cyn ac ar ôl y diswyddiadau. Fel rhan o'r gwaith hwn, gwnaethom gefnogi **46** o ddigwyddiadau yn ymwneud â diswyddiadau, gan gynnwys ffeiriau swyddi, nosweithiau gwybodaeth a digwyddiadau galw heibio.

## ASTUDIAETH ACHOS

### Stori Katherine

**Roedd Katherine, 35 oed, sy'n byw yn Abertawe, wedi colli ei swydd ym mis Mawrth 2023. Bu'n ymchwilydd mewn prifysgol ers bron i naw mlynedd, gan weithio ar brosiectau ynni adnewyddadwy.**

**Nid oedd Katherine yn siŵr beth i'w wneud nesaf. Ar ôl dod ar draws ein gwasanaeth Cymru'n Gweithio, trefnodd gyfarfod gyda chynghorydd gyrfa, Lindsey.**



**Dywedodd: *"Roeddwn i'n eithaf nerfus, ond roedd fy nghynghorydd i'n gefnogol iawn. Gwnaeth hi fy helpu i i gymryd cam yn ôl i werthuso fy opsiynau i."***

Gyda'i gilydd, buon nhw'n trafod sgiliau Katherine ac yn archwilio llwybrau gyrfa newydd. Awgrymodd Lindsey y dylai Katherine wneud cwis gyrfa i'w helpu i ddeall ei chryfderau a'i diddordebau'n well. Sylweddolodd Katherine y gallai symud i'r diwydiant technoleg. Roedd hi wastad wedi bod yn chwilfrydig am y maes gwaith hwn.

Dechreuodd Katherine ddysgu sut i godio ar ei phen ei hun. Anogodd Lindsey hi hefyd i fynd i ddigwyddiad 'Merched ym maes technoleg' yn swyddfa'r Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau. Dywedodd Katherine: *"Roeddwn i'n nerfus i ddechrau, ond roedd y digwyddiad yn agoriad llygaid. Fe ddysges i am ddatblygu meddalwedd, ac fe wnes i ddarganfod cyfleoedd doeddwn i ddim wedi'u hystyried o'r blaen."*

Yn y digwyddiad, clywodd Katherine am sesiwn hyfforddi codio dwys o'r enw Code First Girls. Ymgofrestrodd ar gyfer y cwrs a helpodd hi i ennill y sgiliau technegol yr oedd eu hangen arni. Erbyn diwedd 2023, roedd hi'n barod i wneud cais am rolau datblygu meddalwedd.

Fe wynebodd Katherine heriau ar hyd y daith. Wnaeth hi ddim llwyddo i gael rhai o'r swyddi y gwnaeth hi gais amdanyn nhw, ond wnaeth hi ddim rhoi'r ffidil yn y to. Trefnodd Lindsey i Katherine weld anogwr cyflogadwyedd Cymru'n Gweithio a helpodd Katherine i baratoi ar gyfer ei chyfweliadau gyda'r Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau. Dywedodd: *"Roedd yr adborth y ces i ar ôl y cyfweliadau yn amhrisiadwy. Ces i ddau gyfweliad gyda'r DVLA. Ches i ddim mo'r swydd gyntaf, ond gwnaeth yr adborth fy helpu i i baratoi ar gyfer yr ail swydd, a llwyddais i gael honno."*

Ym mis Mehefin 2024, dechreuodd Katherine ei rôl newydd fel peiriannydd datblygu meddalwedd gyda'r Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau. Dywedodd: *"Mae'n anhygoel gwneud swydd rydw i wir yn ei mwynhau. Weithiau mae'n rhaid i mi fy atgoffa fy hun i beidio â gorweithio oherwydd rydw i'n frwd iawn drosti."*

Dywedodd hi hefyd: *"Gwnaeth fy nghynghorydd gyrfa fy helpu i nodi fy sgiliau trosglwyddadwy. Gwnaeth hi fy annog i fynd i ddigwyddiadau a oedd y tu hwnt i'r hyn a oedd yn gyfarwydd i fi. Roedd y profiadau hynny'n bwysig iawn o ran magu fy hyder i, ac agor drysau i gyfleoedd newydd."*

**Yr ystad ddiogel:**
Darperir cymorth i oedolion hefyd i droseddwyr yn y ddalfa. Gan ddefnyddio proses atgyfeirio, mae gan garcharorion fynediad at gyfarwyddyd un-i-un yn ogystal â gwybodaeth am y farchnad lafur leol, a chymorth i wneud cais am gyfleoedd cyn cael eu rhyddhau. Rydym yn parhau i fod ar gael i garcharorion ar ôl eu rhyddhau, i ddarparu cymorth yn ystod y cyfnod pontio ac i helpu i atal aildroseddu. Gwnaethom gynorthwyo **1,495** o garcharorion, a chynnal **3,755** o ymyriadau, gan gynnwys cymorth dilynol.

- Yn ogystal â'n gwaith mewn carchardai dynion ledled Cymru, rydym hefyd yn cefnogi carcharorion benywaidd yng Ngharchar Ei Fawrhydi Styal a Charchar Ei Fawrhydi Eastwood Park, ac wedi neilltuo cynghorwyr penodol i'r sefydliadau hyn er mwyn sicrhau bod carcharorion benywaidd sy'n symud yn ôl i Gymru ar ôl eu rhyddhau yn cael y cymorth priodol.
- Buom hefyd yn parhau i weithio'n agos gyda staff carchardai yn y canolfannau cyflogaeth newydd i gefnogi carcharorion gyda sgiliau cyflogadwyedd ac i helpu i hwyluso'r broses o drosglwyddo yn ôl i waith ar ôl eu rhyddhau.
- Yn 2023–2024, gwnaethom gyflwyno rhaglenni hyfforddi ReAct+ mewn carchardai. Mae'r gwaith hwn wedi parhau, ac rydym wedi cyflwyno cyfanswm o **426** o geisiadau ReAct+ ar ran troseddwyr. O'r rhain, cwblhawyd **122** pan oedd y troseddwr yn parhau i fod yn y carchar, **253** ar ran troseddwyr a ryddhawyd yn ystod y chwe mis diwethaf, a **51** ar ran troseddwyr eraill yn y gymuned.

## Digwyddiadau

Gwnaeth ein tîm drefnu neu fynd i **269** o ddigwyddiadau yn ystod 2024–2025. Mae'r digwyddiadau'n cynorthwyo cwsmeriaid drwy gyrraedd rhannau o Gymru sy'n llai hygyrch (lle nad oes gennym bwyntiau mynediad sefydledig) a lle gallwn weithio gyda phartneriaid i gynnig gwasanaeth gwell.

Gellir crynhoi'r digwyddiadau yr aethpwyd iddynt i'r categorïau canlynol:

- Digwyddiadau yn gysylltiedig â diswyddiad (17%)
- Ffeiriau recriwtio / swyddi (46%)
- Digwyddiadau yn gysylltiedig â charchar a chyfnod prawf (8%)
- Digwyddiadau dros dro (4%)
- Digwyddiadau yn gysylltiedig â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (6%).

Aethom hefyd i ddigwyddiadau a oedd yn canolbwyntio ar fusnes, gwybodaeth am y diwydiant ar gyfer pobl dros 50 oed, a chyn-filwyr.

Mae enghreifftiau yn cynnwys:

### Digwyddiad prentisiaethau EE a gynhaliwyd yng nghanolfan gyrfa Merthyr Tudful

Roedd hwn yn gydweithrediad rhyngom ni ac EE, a oedd yn chwilio am brentisiaid i'w recriwtio. Hysbysebwyd y digwyddiad drwy asiantaethau partner, ar y cyfryngau cymdeithasol, ac yn y wasg, a rhoddwyd gwahoddiad i gwsmeriaid priodol. .

Roedd croesdoriad eang o ran oed, rhywedd ac ethnigrwydd ymhlith y rhai a fu'n bresennol. Yn dilyn y digwyddiad, gwnaeth **19** o gyfranogwyr ymgeisio am rolau prentisiaeth a chael eu cyf-weld. Maes o law, cynigwyd prentisiaeth i chwech ohonynt.
Adborth gan EE:

> ***Roedden ni wedi ein syfrdanu'n llwyr gan y nifer a ymunodd â ni ar y diwrnod. Roedd ansawdd yr ymgeiswyr a'u hymgysylltiad yn wych.***

### Ffair swyddi gynhwysol Gyrfa Cymru Caerdydd ar gyfer cwsmeriaid niwrowahanol

Trefnwyd y digwyddiad mewn ymateb i gynnydd sylweddol yn nifer y cwsmeriaid sy'n datgelu eu bod yn niwrowahanol yn ystod apwyntiadau, a'u pryderon ynghylch dod o hyd i gyflogwyr sy'n fodlon eu cyflogi.

Gwahoddwyd amrywiaeth o gyflogwyr cynhwysol a hyderus o ran anabledd o wahanol sectorau sydd wedi ymrwymo i recriwtio gweithlu niwroamrywiol. Yn ogystal â hyn, gwahoddwyd sefydliadau cymorth arbenigol a darparwyr dysgu.

Roedd 10 cyflogwr yn rhan o'r digwyddiad, yn cynnwys Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi, BBC Cymru Wales, Trafnidiaeth Cymru, y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, a'r Hyb Arloesedd Seiber, pob un yn cynnig cyfleoedd cyffrous. Dros gyfnod o dair awr, daeth **244** o bobl i'r digwyddiad. Roedd yr adborth gan y sawl a fu'n bresennol yn hynod gadarnhaol, gyda llawer yn mynegi eu gwerthfawrogiad am ddigwyddiad a oedd wedi ei deilwra yn benodol ar gyfer eu hanghenion nhw, ac yn canmol aelodau ein tîm am eu cymwynasgarwch a'u cyfeillgarwch.

Roedd y sylwadau'n cynnwys:

> ***Rwy'n gobeithio y bydd rhagor o ddigwyddiadau fel hyn.***

> ***Mae chwilio am waith pan fo gennych chi gyflwr niwrowahanol yn frawychus; felly, mae'r ffaith bod yna ffair swyddi gynhwysol yn anhygoel***

Rhoddodd cyflogwyr a sefydliadau adborth cadarnhaol hefyd. Dywedodd Cerys Cowan o Barnardo's:

> ***Gwnaeth y ffair swyddi gynhwysol argraff fawr ar fy nhîm; bu'n brofiad ffantastig. Fe ddaethon ni â rhai pobl ifanc niwroamrywiol gyda ni, ac roedden nhw'n teimlo bod y digwyddiad yn hynod fuddiol hefyd. Diolch am y cyfle.***

# Adborth cwsmeriaid

**Daeth yr adborth canlynol i law trwy arolygon adborth cwsmeriaid dienw neu drwy negeseuon e-bost a negeseuon digymell:**

> *"Fe helpodd fi i ddeall yn well ble i fynd ar ôl cwblhau fy Lefel A. Gwnaeth y gwasanaeth fy helpu i ddeall pethau nad oeddwn yn siŵr ohonynt o'r blaen, a helpu i gael trefn ar fy nghynlluniau."*

> *"Roedd hi'n anhygoel ac yn gymwynasgar. Oni bai amdani hi, fyddwn i ddim wedi agor mwy ar fy llygaid i edrych ar y cyfleoedd eraill sydd gen i yn y maes."*

> *"Roedd y cyngor y cefais ganddi yn ddefnyddiol iawn i fy helpu i ddarganfod beth y gallwn i fod eisiau ei wneud fel swydd yn y dyfodol."*

> *"Es i mewn ddim yn gwybod beth roeddwn i eisiau ei wneud, a dod allan yn teimlo'n bositif iawn am fy nyfodol."*

> *"Fel un sy'n addysgu gartref, alla i ddim dweud pa mor bwysig oedd eich cyswllt cychwynnol chi. Byddem wedi colli'r cyfle hwn; felly, diolch eto."*

> *"Diolch am eich holl help. Chi yw'r unigolyn mwyaf cymwynasgar rydyn ni wedi dod ar ei draws yn y bedair blynedd y mae o wedi bod yn y carchar. Rwy'n ddiolchgar iawn."*

> *"Pe bai angen eich gwasanaethau arnaf eto, fyddwn i ddim yn oedi cyn cysylltu â Cymru'n Gweithio. Rwyf hefyd wedi bod yn argymell eich cyngor gyrfaoedd i'm teulu a'm ffrindiau. Diolch unwaith eto."*

> *"Diolch i chi am gyfarfod â mi heddiw. Pan gyrhaeddais adref, gwnes i ddeffro fy ngŵr a dweud fy mod i'n ysgafn fy nhroed am y tro cyntaf ers amser maith, ac fy mod wedi cwrdd â'r unigolyn mwyaf calonogol. Diolch am awr ysbrydoledig ac ysgogol."*

> *Roeddwn i eisiau anfon neges gyflym atoch chi i ganmol yr hyn a wnaeth fy nghynghorydd gyrfa ar fy rhan. Mae hi'n glod i'ch tîm. Cefais fy niswyddo yn ddiweddar a chysylltais â Gyrfa Cymru am gymorth a chyngor ynghylch cyllid ReAct+. Roedd y cynghorydd yn broffesiynol iawn a gwnaeth y broses gyfan yn hawdd iawn. Rwy'n falch o ddweud fy mod yn cychwyn ar fy hyfforddiant yn ddiweddarach y mis hwn.*

> *Aeth eich cynghorydd chi y tu hwnt i bob disgwyliad i wneud i fy mab, sy'n cael ei addysgu gartref, deimlo'n gwbl gyfforddus. Roedd yn teimlo'n ysbrydoledig ac yn hyderus pan wnaethon ni gerdded allan ar y diwedd, sy'n gam enfawr.*

> *Roeddwn i eisiau i chi fod yn un o'r cyntaf i glywed fy mod wedi sicrhau swydd newydd i mi fy hun fel rheolwr warws i gwmni peirianneg. Roeddwn i eisiau diolch yn ddiffuant ichi am fy helpu ar adeg anodd yn fy mywyd. Gwnaethoch chi fy ysbrydoli i gael yr hyder i roi fy hun allan yna eto. Ni fydd yr ychydig eiriau hyn byth yn ddigon i ddangos fy ngwerthfawrogiad. Diolch.*

> *Roedd y cyfweliad yn anhygoel. Cyn y cyfweliad doeddwn i ddim yn siŵr beth roeddwn i eisiau ei wneud, ac roeddwn i'n bwriadu gwneud yr hyn yr oeddwn i fwyaf cyfforddus yn ei wneud, a beth oedd yn gyfarwydd i mi, nid yr hyn fyddai o'r budd mwyaf i mi. Gwnaeth fy nghynghorydd gyrfa fy helpu i archwilio mwy o opsiynau a oedd yn llawer mwy addas i mi, a nawr dydw i erioed wedi teimlo'n gliriach ynglŷn â'r hyn rydw i eisiau ei wneud.*

Gan adeiladu ar yr astudiaethau achos cynharach yn yr adroddiad hwn, mae'r straeon ysbrydoledig canlynol yn rhoi sylw i'r gwahaniaeth cadarnhaol y mae ein gwasanaethau'n parhau i'w wneud ledled Cymru..

# ASTUDIAETHAU ACHOS

## Stori Macie



**Mae Macie yn ddisgybl blwyddyn 14 yn Ysgol y Gogarth, ysgol ADY yn Llandudno. Mae Alison, cynghorydd gyrfa Macie, wedi cynorthwyo pobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol mewn ysgolion a cholegau ers 13 o flynyddoedd. Eglurodd:**

***"Gwnes i gyfarfod â Macie am y tro cyntaf yn 2019, pan oedd hi ym mlwyddyn 9. Daeth Macie i'w chyfweliad gyrfaoedd cyntaf gyda mi, lle dechreuon ni sgwrsio am yr hyn y gallai fod eisiau ei wneud yn y dyfodol. Dangosodd Macie ddiddordeb mewn gweithio yng nghaffi'r ysgol a thrin gwallt.***

***"Gwnes i gyfarfod â Macie eto sawl gwaith pan oedd hi ym mlwyddyn 10 a blwyddyn 11 yn ystod gweithdai grŵp. Bu'r gweithdai yn edrych ar sgiliau, diddordebau, technegau cyfweliad a sgiliau gwneud penderfyniadau.***

***"Eisteddais gyda Macie eto i gael cyfweliad gyrfaoedd ym mlwyddyn 12. Gwrandewais arni gan ofyn cwestiynau a'i chynorthwyo gyda'i syniadau. Erbyn hynny, roedd Macie wedi dechrau dangos diddordeb mewn bod yn gynorthwyydd ystafell ddosbarth. Fy rôl i oedd sicrhau ei bod yn gwneud y penderfyniadau cywir a chreu cynllun ar gyfer ei chamau nesaf.***

***"Rwyf wedi bod i lawer o adolygiadau blynyddol Macie yn Ysgol y Gogarth rhwng blynyddoedd 9 ac 14. Mae'r adolygiad blynyddol yn bwysig i sicrhau bod Macie yn cael y cymorth y mae ei angen arni, ac yn gwneud cynnydd i helpu i gynllunio ar gyfer y dyfodol.***

***"Mae angen i ddysgwyr gael blas ar y byd gwaith i wneud dewisiadau am eu gyrfaoedd.***

***Rydym wedi trefnu i gyflogwyr ymweld â'r ysgol, yn ogystal â threfnu ymweliadau â gwahanol weithleoedd. Rydym wedi cynnal sesiynau ffug-gyfweliadau gyda chyflogwyr yn yr ysgol, ac mae Macie wedi mwynhau'r rheiny.***

***"Rydw i mor hapus i weld bod Macie eisoes yn cael profiad gwaith fel cynorthwyydd dosbarth, gan gefnogi dysgwyr ifanc yn Ysgol y Gogarth. Bydd Macie yn gadael yr ysgol yr haf hwn ac wedi llwyddo i gael lle yng Ngholeg Llandrillo ar y cwrs Sgiliau Bywyd a Gwaith, ac y mae hi hefyd yn bwriadu gwneud rhywfaint o wirfoddoli."***

***Dywedodd Macie: "Rydw i wedi mwynhau siarad ag Alison. Mae hi wedi fy helpu i ddeall fy opsiynau a gwneud cynllun. Mae hi wastad wedi bod yno i fy helpu i, fy mam a fy athrawon. Ar y dechrau, roeddwn i'n meddwl fy mod i eisiau trin gwallt, ond rydw i'n hoffi plant ac yn wir mwynhau fy mhrofiad gwaith fel cynorthwyydd dosbarth.***

***"Mae Alison wastad wedi bod yno i wrando arna i a fy helpu i wneud dewisiadau am fy nyfodol. Mae hi wedi gwneud i mi deimlo'n llawer hapusach."***

Gyrfa Cymru
Careers Wales

# ASTUDIAETHAU ACHOS

## Stori Jack

Nid oedd Jack, 15 oed, o Wrecsam, yn siŵr pa gwrs coleg yr oedd am ei ddilyn. Trefnodd ysgol Jack gyflwyniad gyda Ffion, eu cynghorydd gyrfa cysylltiedig. Ar ôl hynny, cynhaliodd Ffion gyfarfodydd unigol gyda phob myfyriwr i'w helpu i archwilio eu diddordebau a'u hopsiynau ar ôl gadael yr ysgol.

Yn ystod ei gyfarfod â Ffion, bu Jack yn trafod ei ddiddordeb mewn ceir, a soniodd am ei anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd, awtistiaeth a dyspracsia. Dywedodd Jack: *"Gwnaeth Ffion y sesiynau'n fyr i mi oherwydd fy mod yn colli diddordeb yn hawdd. Felly, roeddwn i'n gwerthfawrogi hynny."*

Yn wreiddiol, buont yn edrych ar gwrs yn ymwneud â gweithgareddau awyr agored; ond ar ôl bod i noson agored, nid oedd Jack mor siŵr ynglŷn â'r llwybr hwn. Eglurodd Jack: *"Dywedais i wrth Ffion nad oeddwn i 100% yn siŵr, a dywedodd hi nad oedd rhaid i mi ei wneud. Gofynnodd hi a oedd cyrsiau eraill yr hoffwn iddi ymchwilio iddynt."*

Arweiniodd hyn at Jack yn mynegi ei ddiddordeb mewn peirianneg a mecaneg. Gwnaeth Ffion ei helpu i ddod o hyd i gwrs mecaneg addas mewn coleg lleol. Ychwanegodd Jack: *"Roedd Ffion yn wych. Mwynheais y sesiynau gyda hi, ac fe helpodd hi fi'n fawr. Roedd hi'n berson caredig iawn i siarad â hi."*

Gyda chymorth Ffion, gwnaeth Jack gais am le ar y cwrs mecaneg. Llwyddodd i gael y graddau TGAU yr oedd eu hangen arno, a chadarnhawyd ei le ar y cwrs.

Dechreuodd Jack brofiad gwaith mewn gweithdy mecanig dros yr haf hefyd.

Dywedodd Jack: *Rwy'n caru bywyd coleg hyd yn hyn. Rydw i hyd yn oed wedi cael swydd ran-amser â thâl mewn bwyty pitsa lleol ar y penwythnos. Rwy'n teimlo'n hyderus iawn am fy nyfodol nawr ac rwy'n edrych ymlaen yn fawr."*



# ASTUDIAETHAU ACHOS

## Stori Peter

Bu Peter, sy'n 53 oed ac yn byw yn Aberhonddu, yn mwynhau gyrfa lawn ac amrywiol yn y diwydiant arlwyo am dros 30 mlynedd. Mae'n gogydd arobryn, wedi ennill statws prif gogydd yn un o dafarndai gorau Cymru. Mae wedi gweithio ledled y DU, ac yn fwy diweddar bu'n berchennog busnes ar fwytai yng Nghymru.

Cymerodd Peter ei gam cyntaf o fod yn weithiwr i ddechrau ei fusnes ei hun yn 2017 pan ddaeth cyfle i brynu busnes sefydledig. Gwnaeth y busnes ffynnu, ac er bod yr oriau'n hir a'i bod yn anodd cydbwyso bywyd gwaith a theulu ifanc, mwynhaodd Peter y profiad cyffredinol o fod yn fos arno'i hun.

Cafodd COVID-19 a'r argyfwng costau byw effaith fawr ar y diwydiant bwyd, ac yn 2022 caeodd y busnes. Cafodd hyn effaith uniongyrchol ar iechyd meddwl Peter, a dechreuodd deimlo ar goll yn llwyr, yn ariannol ac yn emosiynol.

Dechreuodd Peter weithio gyda chynghorydd gyrfa, Jon, a thrwy sesiynau un-i-un fe ddechreuodd y ddau archwilio opsiynau Peter. Wrth feddwl yn ôl am y cyfnod hwnnw, dywedodd Peter: *"Roeddwn i mewn lle eithaf tywyll ac yn cael trafferth gyda fy iechyd meddwl. Doeddwn i ddim yn siŵr beth oeddwn i'n mynd i'w wneud nesaf ac yn ansicr ai chwilio am swydd arall ym maes arlwyo oedd y cam iawn mi; ond roedd addysg a dysgu sgiliau newydd yn rhywbeth dieithr.*

*"Arlwyo yw'r cyfan rydw i wedi'i wneud erioed. Gadewais yr ysgol yn 16 oed ac es i'r coleg i astudio technoleg bwyd, cyn mynd yn syth i'r diwydiant arlwyo. Rwy'n ddyslecsig, a fues i erioed yn wych yn yr ysgol. Rydw i wedi bod â brwdfrydedd dros greu bwyd da erioed. Rwyf hefyd yn ei chael hi'n hawdd cyfathrebu'n dda â phobl, ac mae hynny'n bwysig ym maes arlwyo gan ei fod yn ddiwydiant sy'n ymwneud llawer â phobl."*



Gan weithio gyda'i gilydd, llywiodd Jon a Peter y broses o beth i'w wneud nesaf. Roedd hyn yn cynnwys dysgu am sgiliau trosglwyddadwy Peter a sut i'w defnyddio i gael mynediad i faes gwaith arall.

Wrth siarad am y cymorth gyrfaoedd a gafodd, dywedodd Peter: *"Fe helpodd i mi ddechrau creu darlun ohonof fy hun, pwy oeddwn i, a'r hyn oedd angen i mi ei ddysgu i symud ymlaen.*

*"Dechreuodd y broses gyfan wneud i mi deimlo'n llawer mwy cadarnhaol amdanaf fy hun a'm gallu. Yn raddol, dechreuodd fy iechyd meddwl wella."*

Yn ystod y sesiynau, trafododd Jon botensial Peter i ddefnyddio ei brofiad ei hun gydag iechyd meddwl, a'i sgiliau cyfathrebu presennol i symud ymlaen i yrfa yn helpu eraill sy'n wynebu sefyllfaoedd tebyg.

Gyda chymorth Jon, gwnaeth Peter gais am swydd yn y GIG a llwyddodd i gael lle ar gwrs prentisiaeth a oedd yn hyfforddi darpar nyrsys. Mae'r cwrs tair blynedd wedi'i ariannu'n llawn ac mae'n cynnwys astudiaeth a hyfforddiant ymarferol yn y gwaith.

Pan fydd wedi cymhwyso'n llawn bydd Peter yn nyrs iechyd meddwl.

Dywed Peter, "Roedd Jon mor dda ac mor gefnogol. Rwy wedi darganfod nad yw'n rhy hwyr i ddechrau o'r newydd a dechrau rhywbeth newydd. Dydych chi byth yn rhy hen ac mae gan fywyd lawer i'w gynnig o hyd."

## Hyrwyddo cyfleoedd gyrfa mewn Cymru sero net

Rydym yn partneru â llawer o gyflogwyr sy'n angerddol dros gefnogi gweithlu'r dyfodol yng Nghymru. Un sefydliad o'r fath yw Viridor, eiriolwr ymroddedig dros Gymru sero net.

## ASTUDIAETHAU ACHOS

Mae Viridor yn dargyfeirio o leiaf 95% o wastraff gweddilliol de Cymru o safleoedd tirlenwi. Maent hefyd yn cynhyrchu trydan ar gyfer y Grid Cenedlaethol, yn ogystal â gwaredu deunyddiau crai o ansawdd uchel, sydd, yn eu tro, yn cael eu hailgylchu.

Mae Eamonn Scullio, swyddog canolfan ymwelwyr a buddion cymunedol Viridor, yn ymgysylltu ag ysgolion i godi ymwybyddiaeth am effaith tirlenwi. Mae ei sgyrsiau'n hyrwyddo pwysigrwydd lleihau gwastraff, ailddefnyddio ac ailgylchu.

Bu Viridor yn ein cefnogi ni drwy gymryd rhan mewn 46 o ddigwyddiadau ledled Cymru dros y flwyddyn academaidd ddiwethaf, gan hysbysu dysgwyr am yrfaoedd a phrentisiaethau yn yr economi sero net.

Mae Eamonn hefyd yn ymgysylltu ag ysgolion cynradd drwy gynorthwyo'r rhai sy'n cymryd rhan yng Ngwobr Ansawdd Gyrfa Cymru. Yn ystod ymweliad ag ysgol, cyflwynodd brosiect sy'n anelu at wneud dysgwyr yn fwy ymwybodol o'r gwastraff y maen nhw'n ei gynhyrchu, a sut i leihau gwastraff, ailgylchu ac ailddefnyddio. Bydd y prosiect yn cyrraedd uchafbwynt gydag ymweliad â safle Viridor ym Mae Caerdydd, sydd o'r radd flaenaf.



Ym mis Ionawr 2025, enillodd Viridor wobr Cefnogwr Gorau'r Agenda Sero Net yn y Gwobrau Partneriaid Gwerthfawr.

*"Mae'n anrhydedd mawr i ni ennill y wobr hon heddiw. Mae'n fraint gweithio gyda phobl ifanc, ac yn bwysicaf oll, dangos iddyn nhw sut beth yw llenwi'r bwlch rhwng yr hyn y maen nhw am ei wneud a'i gyflawni.*


*"Mae hefyd yn ymwneud â dangos iddyn nhw fod Cymru yn le lle gall eu dyfodol ddigwydd. Mae yna lawer o gyfleoedd ar gael o fewn tafliad carreg."*

Eamonn Scullio, Viridor's canolfan ymwelwyr a swyddog buddion cymunedol

# Cysylltiadau â nodau llesiant cenedlaethau'r dyfodol

Mae ein cefnogaeth i gwsmeriaid o bob cefndir ac o bob oed yn eu galluogi i gyflawni eu potensial ni waeth beth yw eu hamgylchiadau. Trwy ddarparu gwasanaeth cynhwysol ac ymatebol i'r rhai sydd â'r angen mwyaf, rydym yn chwarae ein rhan i greu **Cymru sy'n fwy cyfartal.**

Drwy arfogi cwsmeriaid â'r sgiliau i fanteisio ar gyfleoedd yn y farchnad lafur a datblygu'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth a fydd yn eu helpu i gynllunio eu gyrfaoedd yn effeithiol, rydym yn helpu i adeiladu **Cymru lewyrchus.**




Rydym yn helpu i adeiladu **Cymru o gymunedau cydlynus** drwy gynorthwyo cwsmeriaid i sicrhau cyflogaeth a hyfforddiant cyflogedig a chyfrannu'n gadarnhaol at eu cymunedau. Mae hyn yn arbennig o wir pan fyddwn yn datblygu cysylltiadau rhwng ysgolion megis Ysgol Gyfun Gymraeg Maes y Gwendraeth a chyflogwyr lleol megis Bwydydd Castell Howell.

Mae ein gwaith ochr yn ochr â Chyngor Gwynedd ac Ysgol Tryfan i helpu pobl ifanc i weld gwerth y Gymraeg yn y farchnad lafur yn dangos sut mae ein gwaith yn chwarae ei ran yn cefnogi **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.**

Un enghraifft yn unig yw stori Peter o sut mae helpu cwsmeriaid i deimlo'n fwy hyderus a llawn cymhelliant ynghylch cynllunio eu gyrfa yn cyfrannu at **Cymru iachach**, gyda phwyslais arbennig ar lesiant meddwl pobl ar adegau sy'n aml yn gallu bod yn heriol ac yn llawn straen yn eu bywydau.

Trwy ein gwaith gyda chyflogwyr fel Viridor ac ysgolion i dynnu sylw at y cyfleoedd gyrfa sydd ar gael mewn Cymru Sero Net, rydym yn cyfrannu at **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.**

Ar draws ystod lawn ein gwasanaethau, mae ein gwaith o ddatblygu cynnydd cymdeithasol ac economaidd cwsmeriaid trwy ymwybyddiaeth well o'r farchnad lafur, a sicrhau bod cenedlaethau'r dyfodol yn ymwybodol o'r cyfleoedd sydd ar gael yn economi Cymru yn y dyfodol, yn helpu i adeiladu **Cymru gydnerth**.

# Gwasanaethau corfforaethol

## Staffio

Nifer cyfredol y staff (ar 31 Mawrth 2024) oedd **591**. Mae hyn yn ostyngiad o **643** o'i gymharu â 31 Mawrth 2023. Roedd y swm cyfwerth ag amser llawn yn **530** yn 2024 o'i gymharu â 577.82 yn 2023. Mae'r gostyngiad sylweddol hwn o ganlyniad i ymarfer gadael swydd yn gynnar o wirfodd a gynhaliwyd ddechrau 2024. Y cydbwysedd rhywedd yw **77.5%** benywaidd, **22.5%** gwrywaidd.

Cafodd **23** o weithwyr newydd eu cyflogi yn ystod y cyfnod hwn. Mae hyn yn ostyngiad o'i gymharu â'r flwyddyn adrodd flaenorol, pan gyflogwyd 49 o weithwyr newydd.

Mae ein cyfradd dargadw staff yn parhau i fod yn uchel iawn, gyda chyfradd trosiant o **6.32%** y flwyddyn a chyfnod aros cyfartalog o **15.6** mlynedd. Mae hyn yn cymharu â chyfradd trosiant gyfartalog o **34%** a'r hyd gwasanaeth mwyaf cyffredin yn y DU rhwng dwy a phum mlynedd (Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu, 2024).

Cynhaliwyd **33** o ymarferion recriwtio, gan ddenu **412** o geisiadau. Roedd hyn yn gynnydd o ddau ymarfer o'i gymharu â 2023–2024. Mae'r amser a gymerir i gyflogi yn parhau i leihau'n gyson i **48** diwrnod (o 52 yn 2023–2024). Yn unol â phrofiad cyrff eraill yn y sector cyhoeddus, mae recriwtio ymgeiswyr sy'n medru'r Gymraeg yn parhau i fod yn heriol.

Mae ein bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn parhau i fod yn **1.6%**, sy'n sylweddol is na ffigur cyffredinol Cymru o 8.9% yn 2024[6]. Rydym yn parhau i dalu mwy na'r cyflog byw am bob swydd.

Roedd absenoldeb oherwydd salwch ar gyfer y cyfnod hwn yn **5.7%**, ac mae'n ostyngiad sylweddol o ffigur y flwyddyn flaenorol o 7.5%.

[6] Arolwg blynyddol o oriau ac enillion 2024



## Dysgu a datblygu

**Roedd bodlonrwydd cyffredinol â dysgu a datblygu yn 91% yn 2024–2025. Mae hyder mewn sgiliau digidol wedi gwella gyda 79% o weithwyr yn teimlo'n hyderus yn 2024 o'i gymharu â 66% yn 2023.**

Mae uchafbwyntiau allweddol dysgu a datblygu yn cynnwys y canlynol:

- Mewn ymateb i adborth gan ddysgwyr, gwnaethom dendro am system rheoli dysgu newydd, fodern gan ddewis Kallidus. Bydd y system newydd yn hyrwyddo dysgu gwell rhwng cyfoedion, dysgu anffurfiol, rhannu gwybodaeth a chydymffurfedd â dysgu gorfodol.
- Cafodd Wythnos Dysgu yn y Gwaith ei hail-frandio fel Cynhadledd Gyrfa Cymru yn 2024, gyda rhaglen estynedig o ddigwyddiadau yn cael ei chynnal dros bythefnos. Cymerodd dros ddwy ran o dair o'r cwmni ran mewn o leiaf un digwyddiad, ac roedd 76% o'r sgoriau ar gyfer gweithgareddau yn bedair neu bum seren.
- Lansiwyd rhaglen ddatblygu 12 mis ar gyfer rheolwyr llinell newydd, a bydd y rhaglen hon yn dod i ben yn 2025–2026. Rydym wedi bod yn canolbwyntio ar ymgysylltu a grymuso timau a rheoli newid.
- Bu mwy o ddefnydd o ficro-ddysgu ac adnoddau wedi'u curadu i annog grymuso dysgwyr a dysgu anffurfiol. Un enghraifft o hyn yw casgliad bob deufis o adnoddau ar thema sgiliau pŵer.
- I gynghorwyr gyrfa, y blaenoriaethau allweddol oedd gweithio ar y sgiliau rheoli gyrfa o wneud penderfyniadau a gwydnwch. Cynigiwyd gweithdai i bob cynghorydd gyrfa, gan ddefnyddio cymysgedd o hyfforddwyr mewnol ac allanol.
- Arweiniodd mwy o waith gyda chwsmeriaid ar brawf o'r carchar at gyflwyno hyfforddiant ar ddeall euogfarnau troseddol, wedi'i ddarparu gan NACRO, a hyfforddiant diogelwch personol, wedi'i ddarparu gan Safety First Solutions.
- Manteisiodd 70 o weithwyr ar y cynnig o ddosbarthiadau Cymraeg yn y gwaith, ac aethant ymlaen i wneud lefel Mynediad, blwyddyn 1 neu 2. Cafodd chwech o weithwyr gymorth ariannol i fynychu dosbarthiadau Cymraeg yn eu hamser eu hunain.
- Cwblhaodd 11 o hyfforddwyr cyflogadwyedd y diploma lefel 4 mewn Gwybodaeth a Chyngor Gyrfaoedd, a chwblhaodd 12 o gynghorwyr gyrfa dan hyfforddiant y diploma lefel 6 mewn Cyfarwyddyd a Datblygu Gyrfaoedd. Cwblhaodd saith o bobl brentisiaethau yn ystod y flwyddyn.


## Cyllid

Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, roedd cyfrifon diwedd blwyddyn 2024–2025 yn dal i gael eu cwblhau. Mae ein cyfrifon statudol ar gyfer y chwe blynedd diwethaf ar gael ar-lein a bydd y rhai ar gyfer 2024-2025 yn cael eu hychwanegu maes o law.

# Ymrwymiadau eraill

## Perfformiad amgylcheddol

Yn 2024–2025, dechreuom gyflwyno ein strategaeth ystadau sy'n cyd-fynd yn llawn â'n strategaeth sero net 2030 a'n harferion gwaith hybrid. Elfen allweddol o'n strategaeth yw lleihau ein portffolio ystadau ac archwilio cyfleoedd cydleoli i ddarparu gwasanaethau lleol. Ein nod yw darparu swyddfeydd modern â lefelau uwch o dechnoleg, gydag allyriadau carbon isel a fydd yn rhoi'r gallu i ni ddarparu amgylcheddau gwaith modern sydd wedi'u halinio i'n harferion gwaith hybrid. Er mwyn bodloni gofynion y strategaeth genedlaethol *'Ffyniant i Bawb'* byddwn yn sicrhau bod ein portffolio ystadau yn mynd i'r afael ag anghenion y gymuned yr ydym yn gweithredu ynddi.



Yr allwedd i gyflawni ein strategaeth sero net yw gweithredu ein systemau rheoli amgylcheddol yn barhaus a defnyddio mwy ar ddata monitro i lywio penderfyniadau. Llwyddwyd i gyrraedd lefel 4 y Ddraig Werdd yn 2024–2025. Mae'r data amgylcheddol yn y tabl isod wedi'i gasglu o'r 28 o swyddfeydd sydd o dan ein rheolaeth lwyr, a lle'r ydym yn cael anfonebau'n uniongyrchol gan y cyflenwr ynni. Yn ogystal, rydym hefyd yn adrodd yn flynyddol ar wybodaeth amgylcheddol ychwanegol i Lywodraeth Cymru.  Mae hyn yn cynnwys amcangyfrif sawl cilogram o allyriadau carbon deuocsid a'i gyfatebol ar gyfer gweithio gartref (103,884 eleni o'i gymharu â 103,351 y llynedd), milltiroedd teithio i'r gwaith (247,994 eleni o'i gymharu â 232,396 y llynedd) ac allyriadau'r gadwyn gyflenwi (1,059,682 eleni o'i gymharu ag 868,920 y llynedd).

| | **2022-2023** | **2023-2024** | **2024-2025** |
|---|---|---|---|
| Dŵr (litrau) | **1,936,000** | **1,360,000** | **1,194,000** |
| Milltiroedd busnes | **275,919** | **412,892** | **402,891** |
| Trydan cilowat awr | **356,44** | **355,334** | **357,080** |
| Nwy cilowat awr | **1,270,523** | **832,842** | **896,571** |
| Nwyon tŷ gwydr – carbon deuocsid mewn tunelli | **383** | **341** | **351** |
| **Costau ariannol** | **£** | **£** | **£** |
| Nwy | **26,851** | **41,587** | **28,286** |
| Trydan | **113,626** | **220,809** | **177,163** |
| Dŵr | **16,891** | **9,362** | **8,401** |

Yn 2024–2025 roedd ein holl swyddfeydd ar agor ar batrwm tebyg i 2023–2024, ac fe barhaom i weithredu model gweithio hybrid. Caewyd ein canolfan yng Nghaerffili, ac uned weinyddol fach yng Nglynebwy. Gwnaethom osod pŵer solar mewn dau o'n heiddo, yn Aberystwyth a Wrecsam, gwellwyd yr inswleiddiad yn y ddwy swyddfa, a gosodwyd ffenestri effeithlon o ran ynni yn Wrecsam. Yn y flwyddyn ariannol nesaf, byddwn yn parhau i fuddsoddi yn ein heiddo i wella eu perfformiad amgylcheddol drwy osod ffenestri newydd, pympiau gwres aer a sicrhau gwell inswleiddiad.

Yn 2024–2025, gwnaethom adolygu ôl troed ein safleoedd ledled Cymru a chytuno, o 2025–2026 ymlaen, y byddwn yn sicrhau bod gennym un presenoldeb ym mhob awdurdod lleol*. Er bod gennym waith i'w wneud o hyd i benderfynu beth fydd hyd a lled y presenoldeb ym mhob awdurdod lleol, wrth iddi ddod yn amser i adnewyddu prydlesi, byddwn yn gwneud penderfyniadau ynghylch a ddylid ymestyn ai peidio yn erbyn yr egwyddor hon. Felly mae'n bosibl y byddwn yn rhoi'r gorau i brydlesi yn 2025–2026, a fyddai wedyn yn golygu llai o allyriadau carbon ar ddiwedd y flwyddyn. Rydym hefyd yn disgwyl am gymeradwyaeth y bwrdd i werthu eiddo, a allai leihau allyriadau ymhellach.

Byddwn hefyd yn rhoi mwy o bwyslais ar leihau ein hôl troed carbon mewn perthynas â'n cadwyn gyflenwi drwy gydweithio'n agos â'n 10 cyflenwr gorau i ddeall yn well pa gyfran o'u hallyriadau gwirioneddol y gellir ei dyrannu i'n cyfrifiadau allyriadau carbon.

* *Edrychodd yr adolygiad ar amrywiaeth o ffactorau, gan gynnwys fforddiadwyedd, a ydym yn y lleoliad cywir, a ydyw pob adeilad yn addas at y diben, demograffeg yr ardal leol a nifer ein cwsmeriaid.*



## Y Gymraeg

Credwn mai cynnig gwasanaethau i'r cyhoedd yn eu hiaith ddewisol yw'r arfer gorau, ac rydym wedi ymrwymo i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal.
Mae'n ofynnol i ni gydymffurfio â safonau penodol sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau, llunio polisïau, safonau gweithredu a chadw cofnodion. Cyhoeddwyd ein hadroddiad blynyddol ar safonau'r Gymraeg was published in September 2024.

Ar 31 Mawrth 2025, roedd 56 o weithwyr wedi hunanasesu eu hunain yn siaradwyr Cymraeg hyfedr, a 63 yn siaradwyr Cymraeg uwch. Mae hyn yn cyfateb i 20.4% o'r gweithlu.

**Sgiliau Cymraeg gweithwyr – niferoedd**

| | Siarad | Gwrando | Darllen | Ysgrifennu |
|---|---|---|---|---|
| Hyfedredd | 56 | 56 | 53 | 43 |
| Uwch | 63 | 69 | 62 | 54 |
| Canolradd | 31 | 41 | 44 | 32 |
| Sylfaenol | 56 | 47 | 51 | 60 |
| Mynediad | 203 | 195 | 187 | 183 |
| Dim dealltwriaeth | 184 | 185 | 196 | 220 |

**Sgiliau Cymraeg gweithwyr – canrannau**

| | Siarad | Gwrando | Darllen | Ysgrifennu |
|---|---|---|---|---|
| Hyfedredd | 9.4% | 9.4% | 8.9% | 7.2% |
| Uwch | 10.6% | 11.6% | 10.4% | 9.1% |
| Canolradd | 5.2% | 6.9% | 7.4% | 5.4% |
| Sylfaenol | 9.4% | 7.9% | 8.6% | 10.1% |
| Mynediad | 34.2% | 32.8% | 31.5% | 30.8% |
| Dim dealltwriaeth | 30.9% | 31.1% | 33.0% | 37.0% |

## Tegwch, amrywiaeth a chynhwysiant

Rydym wedi ymrwymo i annog diwylliant cefnogol a chynhwysol, ac i sicrhau bod tegwch, amrywiaeth a chynhwysiant yn cael eu gwreiddio ym mhob agwedd ar y busnes. Rydym yn gwneud hyn drwy hyrwyddo diwylliant sy'n gwerthfawrogi unigolion yn weithredol ac yn cydnabod bod pobl o bob cefndir a phrofiad yn ychwanegu gwerth at ein cymunedau.

Trwy ymgorffori egwyddorion tegwch, amrywiaeth a chynhwysiant yn ein harferion beunyddiol, rydym yn creu amgylcheddau cynhwysol sy'n adlewyrchu'r cymunedau amrywiol yr ydym yn eu gwasanaethu ledled Cymru, ac yn sicrhau bod ein cwsmeriaid yn cael eu cefnogi i ffynnu a chyrraedd eu llawn botensial.

**Yn 2024–2025, buom yn gweithio gyda 215,741 o gwsmeriaid ar draws ein holl wasanaethau.**

- Roedd **55%** yn bobl ifanc o oed addysg statudol, a 31.7% yn 18 oed neu'n hŷn.
- Roedd **53%** o'n cwsmeriaid yn ddynion, a **47%** yn fenywod.
- Roedd **86.8%** o'n cwsmeriaid yn wyn (o'i gymharu â ffigur poblogaeth o 93.8% ar gyfer Cymru), er bod y ffigur hwn yn amrywio ledled y wlad. Yng Nghaerdydd roedd **62.8%** o'n cwsmeriaid yn wyn (poblogaeth o 73.6%), yng Nghasnewydd **70.4%** (poblogaeth o 80.4%), ac yn Abertawe roedd y ffigur yn **77.2%** (poblogaeth o 87.5%). .
- Fel rhan o'n harolwg ar gyfer cwsmeriaid Cymru'n Gweithio, dywedodd **98%** eu bod yn gallu cael mynediad hawdd at y gwasanaethau a'r cyfleusterau yr oeddent eu hangen (2,857 allan o 2,920). Mae'r ffigur hefyd yn **98%** ar gyfer y cwsmeriaid hynny sy'n datgan bod ganddynt anabledd.

## Recriwtio

Er bod amrywiaeth yn ein proses recriwtio yn gwella, rydym yn cydnabod bod gwaith i'w wneud o hyd. Mae ymdrechion sylweddol wedi'u gwneud i sicrhau bod ein proses recriwtio yn gynhwysol, ac mae cynnydd yn nifer yr ymgeiswyr sy'n datgan anableddau yn dangos bod yr ymdrechion hyn yn cael effaith (cynnydd o 1.7% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol). Byddwn yn parhau i wneud mwy i ehangu ein hymgysylltiad a dod yn gyflogwr delfrydol i bobl o gymunedau amrywiol.

Mae rhagor o wybodaeth am ein gwaith yn y maes hwn, gan gynnwys ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol, ar gael trwy ein polisi a'n hadroddiadau cydraddoldeb, amrywiaeth a diwylliant ar ein gwefan, sydd hefyd yn cynnwys y fersiwn ddiweddaraf o'n hadroddiad ar ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus. Datblygwyd ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol fel rhan o Bartneriaeth Cydraddoldeb Cyrff Cyhoeddus Cymru, pwyllgor a sefydlwyd i ddod â sefydliadau cyhoeddus ynghyd er mwyn alinio dulliau.

[7] Cyfrifiad 2021